

Cynllun Datblygu Lleol Ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (2011-2016)

Archwiliad

Sesiwn Gwrandawriad 6

YR AMGYLCHEDD NATURIOL AC ADEILEDIG

9.30am, Dydd Mercher 14 Medi 2016

Datganiad ysgrifenedig a thystiolaeth bellach i'w hystyried gan yr Arolygwyr Cynllunio i ategu gwrthwynebiadau i'r **Cynllun Adnau 2015**, a wnaed gan Paul Madden (ymatebydd 609) a Changen Ynys Môn, YDCW (ymatebydd 591, 078, 711) mewn perthynas ag **Adran 7.5 – Yr Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig**.

Er gweld y gwrthwynebiadau gwreiddiol gweler atodiadau Atodiad 1 (ymateb Paul Madden i ymgynghoriad y Cynllun Adnau), Atodiad 2 (ymateb YDCW i ymgynghoriad y Cynllun Adnau), Atodiad 3 (llythyr YDCW 28 Ionawr 2016), Atodiad 4 (ymateb Uned CDLI) ac Atodiad 5 (ymateb YDCW i ymgynghoriad Newidiadau â Ffocws).

Allwedd i'r Datganiad

Ysgrifen drom = Polisiâu'r Cynllun Adnau a materion eraill sydd angen sylw.

Ysgrifen goch = detholiadau o'r Cynllun Adnau.

Ysgrifen borffor = yr union newid/eiriad sy'n cael ei geisio.

Ysgrifen las = detholiadau o Ddogfennau Ategol y Cynllun Adnau.

Ysgrifen werdd = detholiadau o'r Dogfennau a ddefnyddiwyd ac a gyflwynwyd fel tystiolaeth.

Yr Amgylchedd Naturiol Eitem 1. ar y Rhaglen

Nid yw Polisi PS16 a Thabl 23 yn gadarn. Nid yw'n briodol ac ni fydd yn cyflawni oherwydd y gwallau a'r diffygion trefniadol, cysondeb, cydlynol ac effeithiolrwydd.

- 1) Mae'n amlwg fod Polisi Strategol PS16 (gweler yr ysgrifen goch isod) a Thabl 23 sy'n gysylltiedig, yn anghyflawn ac, felly, yn methu â darparu fframwaith addas er ystyried cynigion datblygu a chadwraeth a gwella'r amgylchedd naturiol.

Polisi Strategol PS16 Cadwraeth a Gwella'r Amgylchedd Naturiol

Bydd y Cynghorau'n rheoli datblygiadau er mwyn cynnal a gwella amgylchedd naturiol, cefn gwlad ac arfordir unigryw ardal y Cynllun, a bydd cynigion sy'n cael effaith andwyol arnynt yn cael eu gwrthod. Wrth ystyried caniatáu cais, bydd yr Awdurdodau Cynllunio yn sicrhau eu bod:

1. Yn gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau, daeareg, hanes a thirweddau ardal y Cynllun;
2. Yn gwarchod a gwella safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a'r ardaloedd cyfagos yn unol â Pholisi Cenedlaethol;
3. Rhoi ystyriaeth i bwysigrwydd cymharol y dynodiadau wrth ystyried y pwysigrwydd a roddir i fuddiannau cydnabyddedig yn unol â Pholisi Cenedlaethol;

4. Gwarchod a gwella bioamrywiaeth yn ardal y Cynllun a gwella ac/neu adfer rhwydweithiau o gynefinoedd naturiol yn unol â'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol a Pholisi AMG4;
 5. Gwarchod a gwella bioamrywiaeth trwy rhwydweithiau o seilwaith gwyrdd/glas;
 6. Gwarchod rhywogaethau sydd dan warchodaeth yn rhyngwladol, yn genedlaethol ac yn lleol;
 7. Diogelu, cynnal neu wella'r cymeriad lleol a natur unigryw Ardaloedd Cymeriad y Dirwedd unigol (yn unol â Pholisi AMG2) ac Ardaloedd Cymeriad y Morlun (yn unol â Pholisi AMG3);
 8. Diogelu, cynnal neu wella coed, cloddiau neu goedlannau o werth gweledol, ecolegol, hanesyddol, diwylliannol neu fwynderol.
- 2) Mae statws rhyngwladol tirwedd ddaearegol Ynys Môn yn rhoi dyletswydd gofal ar Lywodraeth Cymru a'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Nid yw arwyddocâd amgylchedd naturiol Ynys Môn bod yn ddigon pwysig nac wedi ei gydnabod yn ddigonol yn y Cynllun Adnau. Rhaid i Geoparc Byd Eang GeoMôn gael ei gyfeirnoddi'n eglur ym Mholisi Strategol yr Amgylchedd Naturiol; a rhaid iddo gael ymdriniaeth benodol yn Adran 7.5 y Polisiau Manwl. Dylid cyfeirio at y dynodiad a'r statws rhyngwladol hyn dro ar ôl tro yn y Cynllun ar gyfer Ynys Môn, er mwyn buddio i'r eithaf yn gymdeithasol, yn economaidd ac amgylcheddol o'r amgylchedd gwerth uchel, arbennig ac, yn wir, unigryw hon.
- 3) Mae **pwysntiau 2 a 3 yn PS16** yn cyfeirio at "Bolisi Cenedlaethol" ond nid at rwymedigaethau rhyngwladol. Dylai'r hepgoriad hwn gael ei unioni. Felly, er enghraifft, dylai pwynt 2 gael ei hwyhau fel a ganlyn: **"2. Gwarchod a gwella safleoedd o bwys rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, a'u lleoliadau yn unol â Pholisi Cenedlaethol a chan roi sylw priodol i rwymedigaethau rhyngwladol."** Dylai Pwynt 3 hefyd gyfeirio at ein rhwymedigaethau rhyngwladol.
- 4) Mae angen i'r CDLI ar y Cyd hefyd bwysleisio pwysigrwydd arbennig AHNE Ynys Môn, trwy gynnwys dyletswydd statudol yr Awdurdod Cynllunio Lleol dros yr AHNE ym Mholisi Strategol PS16 yn gyfan gwbl, trwy ychwanegu'r geiriad canlynol i'r PS16. 2. **"a chan roi sylw i Gynlluniau Rheoli'r AHNE"**
- 5) A thrwy ddynodi Polisi Manwl penodol yn Adran 7.5 i ddisgrifio natur fregus AHNE Ynys Môn, sy'n gylchyn cul o amgylch Ynys Môn. O ystyried ffurf yr ardal ddynodedig mae'n anodd sicrhau ei bod yn cael ei gwarchod a'i gwella. Ond mae'n hanfodol ei bod, a bod y berthynas rhwng yr AHNE a'r Geoparc Byd Eang yn cael ei hategu. Heb y newidiadau hyn mae'r PS16 yn y Cynllun Adnau yn fframwaith annigonol er ystyried cynigion datblygu yn Ynys Môn a'i hamgylchedd naturiol a gwerthfawr iawn.

Polisi newydd Manwl a gynnigir:-

AMG0: AHNE Ynys Môn - Yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (gan gynnwys yr Arfordir Treftadaeth diffiniedig, Safle Treftadaeth y Byd Biwmares, Geoparc Byd Eang

GeoMôn) a geir ar y Map Cynigion, wrth ystyried ceisiadau cynllunio bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i warchod a gwella'r dirwedd.

Dylid cyfeirio hefyd at Gynllun Rheoli'r AHNE, ac awgrymir y geiriad canlynol:- **Bydd Cynllun Rheoli'r AHNE yn cael ei ystyried pan fernir bod datblygiad yn addas, yn ôl yr amodau cynllunio perthynol ac/neu fesurau lliniaru.**

- 6) Dylai **PS26 pwynt 7 gynnwys cyfeiriad at** Ardaloedd o Dirwedd Arbennig, fel arall mae'n anghyflawn.
- 7) Dylai **PS16 pwynt 3** gydnabod fod dynodiadau arfordirol a morol sydd ynghlwm â'i gilydd yn rhyngweithio'n ffisegol ac yn esthetig gydag AHNE Ynys Môn. Mae'r cronriad o ddynodiadau y tu mewn i a ger AHNE Ynys Môn yn gwneud y gofyn am warchodaeth a gwelliant cadarn yn fwy o gymhelliant nac os byddem yn ystyried nodweddion yr AHNE ar eu pen ei hunain.
- 8) Mae arwyddocâd daeareg a thirwedd Ynys Môn erbyn hyn wedi ei gydnabod gan ddynodiad Geoparc Byd Eang UNESCO (o ran statws mae'n gyfystyr â Safle Treftadaeth y Byd). Cyn hyn, roedd daeareg eithriadol Ynys Môn wedi ei chydabod, i bob diben, yng Nghynllun Lleol Ynys Môn 1996, Polisi 31, am fod y CLG (Cytundeb Lefel Gwasanaeth) yn cael ei roi ar waith ym mhob rhan o dirwedd perfeddwlad wledig Ynys Môn. Ni ddylai Polisi 31 fod wedi ei ddiddymu o'r CDLI ar y Cyd heb ymgysylltiad cyhoeddus addas a rhesymwaith gwell wedi'i seilio ar wyddoniaeth. Dylai hwn gael ei gynnwys o'r newydd yn y CDLI ar gyfer Ynys Môn yn ogystal ag ychwanegu dyletswydd gofal dros safle UNESCO. Yn sgil hyn, byddai'r gwrthwynebiadau trefniadol y cyfeirir atynt isod yn cael eu diddymu.

Os barnir bod dynodiad anstatudol yr ADA yn annigonol er mwyn ymdrin â'r safle UNESCO, yna byddai rhaid cynnwys polisi newydd, wedi'i ddylunio i warchod y GeoParc Byd Eang, yn Adran 7.5 y CDLI ar y Cyd.

Cyflwynir dynodiad UNESCO er mwyn cydnabod safleoedd a thirweddau daearegol eithriadol ledled y byd. Dim ond 120 o Geoparciau Byd Eang sy'n bodoli, ac mae saith ohonynt yn y DU:-

<http://www.unesco.org.uk/designation/Geoparcs/>

Felly dylai'r geiriad a'r disgrifiad canlynol o Geoparc Byd Eang GeoMôn gael ei gynnwys yng **Nghyd-destun paragraff 7.5.1:-**

Mae UNESCO wedi dynodi Ynys Môn fel Geoparc Byd Eang. Enw'r safle yw GeoMôn. Mae'r statws rhyngwladol hwn wedi ei gyflwyno i 120 o safleoedd ledled y byd. Yn achos Ynys Môn, gwneir y dynodiad er mwyn gwarchod yr Ynys fel ardal ddaearyddol unedig o bwys daearegol rhyngwladol. Ceir dros gant o wahanol fathau o greigiau ar ynys dectonig Môn yn ogystal â'r ffosilau hynaf yng Nghymru a Lloegr y cyfan yn pontio 1,800 miliwn o flynyddoedd o hanes y ddaear. Yn ddaearegol, GeoMôn yw Geoparc mwyaf amrywiol y DU.

- 9) Mae **Paragraff 7.5.2 o'r Cynllun Adnau**, sy'n datgan fod "Rhan o Ynys Môn wedi ei dynodi yn GeoParc," yn ffeithiol anghywir a rhaid ei ddiwygio. Ar hyn o bryd, hwn yw'r unig gyfeiriad yn y Cynllun Adnau at y dynodiad rhyngwladol ac, yn hynny o beth, mae'n amlwg yn annigonol.

Am ragor o wybodaeth ar GeoMôn gweler:-

<http://www.geomon.co.uk/>

- 10)** Dylid rhoi pwyslais priodol yn y CDLI ar y Cyd i natur arbennig 'GeoParc Byd Eang GeoMôn', ac i'r ffaith bod natur ynysol Ynys Môn wedi creu treftadaeth ddiwylliannol sy'n deillio o ddaearog a daearyddiaeth y lle.

Mae cyfleoedd economaidd sylweddol ynghlwm â'r statws Geoparc Byd Eang cyn belled ag ein bod ni'n cydnabod hyn ac yn marchnata Ynys Môn fel lle unigryw, yn defnyddio'r enw Geoparc i'r eithaf, yn gweithio gyda phartneriaid a busnesau lleol i godi ymwybyddiaeth a mwyhau potensial y brand Geoparc Byd Eang GeoMôn i hybu cymeradwyaeth ryngwladol, busnes, gweithgareddau addysgiadol a diwylliannol, ac eco dwristiaeth ymhellach:-

"Amcangyfrifir bod Geoparciau Byd Eang y DU wedi cynhyrchu £8.7 miliwn o fis Ebrill 2014 hyd fis Mawrth 2015, trwy eu perthynas â'r rhwydwaith byd eang".

Ffynhonnell: Gwerth Ehangach UNESCO i'r DU 2014-2015:-

<http://www.unesco.org.uk/wp-content/uploads/2016/02/UK-National-Commission-for-UNESCO-Wider-value-of-UNESCO-to-the-UK-UK-Organisations-January-2016.pdf#32>

Sefydliad Addysgiadol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig (UNESCO) yw asiantaeth y CU a chanddo gyfrifoldeb dros warchod treftadaeth ddiwylliannol yn rhyngwladol. Ceir rhagor o wybodaeth am y dynodiad Geoparc Byd Eang trwy'r ddolen ganlynol:-

http://www.globalGeoparc.org/UploadFiles/2012_9_6/IGGP_EN_Statutes_and_Guidelines.pdf

- 11)** Mae felly'n amlwg bod rhaid cyfeirio'n benodol at Geoparc Byd Eang GeoMôn yn PS16 a'r polisiau perthynol ar gyfer Ynys Môn. Mae'r detholiadau canlynol o Statudau a Chanllawiau UNESCO yn rhoi cefndir defnyddiol a dylid eu cynnwys ar dudalen 169, **Cyflwyniad i PS16 a Thabl 23:-**

Mae Llywodraeth y DU a Chomisiwn Cenedlaethol UNESCO yn y DU wedi cefnogi'r broses i Geoparciau Byd Eang ddod yn rhan o raglen ffurfiol UNESCO.

Yn ystod 38ain sesiwn Cynhadledd Gyffredinol UNESCO yn 2015, cadarnhaodd y 195 Aelod Wladwriaeth greadigaeth o label newydd sef Geoparciau Byd Eang UNESCO. Mae hyn yn mynegi cydnabyddiaeth lywodraethol o bwysigrwydd rheoli safleoedd a thirweddau eithriadol mewn ffordd gyfannol, ac mae hefyd yn darparu statws rhyngwladol newydd i gyn-rwydwaith o safleoedd o bwys daearegol.

Ardaloedd daearyddol unedig ble caiff safleoedd a thirweddau o bwys daearegol eu rheoli trwy'r cysyniad cyfannol o warchod, addysgu a datblygiad cynaliadwy, yw Geoparciau Byd Eang UNESCO. Mae arwyddocâd daearegol rhyngwladol Geoparc Byd Eang UNESCO yn cael ei bennu gan bobl broffesiynol ym maes gwyddoniaeth, fel rhan o "Dîm Gwerthuso Geoparc Global UNESCO", sy'n gwneud asesiad byd eang cymharus yn seiliedig ar ymchwil wedi'i

adolygu gan gydweithwyr ac wedi'i gyhoeddi, ac y'i cynhaliwyd ar safleoedd daearegol yn yr ardal. Mae Geoparciau Byd Eang UNESCO yn defnyddio treftadaeth ddaearegol, ynghyd â phob agwedd arall o dreftadaeth naturiol a diwylliannol yr ardal honno, i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion allweddol sy'n wynebu cymdeithas yng nghydestun y blaned ddeinamig yr ydym oll yn byw arni.

12) Mae'r DU hefyd wedi ymrwymo i'r cynllun UNESCO canlynol:-

Confensiwn yn ymwneud ag Amddiffyn Treftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol y Byd (1972) – Fe'i cadarnhawyd gan y Deyrnas Unedig ym mis Mai 1984. Mae Confensiwn Treftadaeth y Byd 1972 yn dod â chysyniadau cadwraeth natur a chynnal nodweddion diwylliannol at ei gilydd mewn un ddogfen. Mae'r Confensiwn yn cydnabod y modd y mae pobl yn ymdrin â natur, a'r angen sylfaenol i gynnal y cydbwysedd sy'n bodoli rhwng y ddau. Y Confensiwn sy'n diffinio'r math o safleoedd naturiol neu ddiwylliannol y gellir eu hystyried i gael eu cynnwys ar Restr Treftadaeth y Byd. Mae'r Confensiwn yn rhestru dyletswyddau'r Carfannau Gwladwriaethol wrth adnabod safleoedd posib a'u swyddogaeth nhw wrth eu gwarchod a'u cadw. Trwy arwyddo'r Confensiwn, mae pob gwlad yn gwneud addewid i gynnal, nid yn unig safleoedd Treftadaeth y Byd sydd ar ei thiriogaeth, ond hefyd i warchod ei threftadaeth genedlaethol. Anogir Carfannau Gwladwriaethol i gynnwys gwarchodaeth o'r dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol yn eu rhaglenni cynllunio rhanbarthol, sefydlu aelodau staff a gwasanaethau ar eu safleoedd, mynd i'r afael ag ymchwil cadwraeth wyddonol a thechnegol a defnyddio mesurau sy'n rhoi swyddogaeth i'r dreftadaeth honno ym mywyd cyffredinol y gymuned.

Ffynhonnell: <http://www.unesco.org.uk/wp-content/uploads/2016/02/UK-National-Commission-for-UNESCO-Wider-Value-of-UNESCO-to-the-UK-UK-Organisations-January-2016.pdf#32>

Mae'r Confensiwn hwn hefyd yn berthnasol i'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Ynys Môn. Mae Ynys Môn yn Geoparc Byd Eang gyda Safle Treftadaeth y Byd (Castell Biwmares), pensaernïaeth gynhenid, treftadaeth amaethyddol a morwrol sydd â'i gwreiddiau yn ffisegol ac yn ddiwylliannol yn y ddaeareg leol a'r dirwedd a'r morlun naturiol.

Dylai'r Confensiwn dros Warchod Treftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol y Byd (1972), Safle Treftadaeth y Byd Biwmares, a Geoparc Byd Eang UNESCO GeoMôn gael eu cynnwys yn Nhabl 23, â chyfeiriad at y ddeddfwriaeth neu'r mecanwaith perthnasol a ddilynir yn y DU.

13) Gan droi yn awr at faterion trefniadol, mae'n amlwg na chafwyd ymgysylltiad cyhoeddus addas yn ystod cymal cyntaf y broses o greu'r cynllun h.y. yn ystod y cymal Materion a Dewisiadau. Olynydd i'r Cynllun Lleol statudol presennol, sef Cynllun Lleol Ynys Môn 1996 yw'r CDLI ar y Cyd.

Mae Polisi 31 yn rhan hynod arwyddocaol o gynllun statudol cyfredol Ynys Môn. Dim ond 'ystyriaeth faterol' yw'r Cynllun Datblygu Unedol (2005) canlynol sydd bellach wedi dod i ben. Ymhellach, ni fydd y cyhoedd yn debyg o fod yn gyfarwydd â, neu hyd yn oed yn ymwybodol o gynnwys dogfen anstatudol. Bydd y sawl nad yw'n weithwyr proffesiynol ym maes cynllunio yn defnyddio'r Cynllun Lleol statudol fel man cychwyn i gymharu ag ymgysylltu ynghylch cynllun statudol arfaethedig newydd. Os oedd yn fwriad gan yr ACLI

wneud newidiadau sylweddol i ddiffiniad yr ADA (Ardal o Dirwedd Arbennig) ar Ynys Môn yn y CDLI ar y Cyd, dylai fod wedi tynnu sylw pob un o'r rhanddeiliaid at hyn cyn gynted â phosib a dylai hyn hefyd fod wedi ei amlygu yn y brif ddogfen ymgysylltu gychwynol, nid mewn dogfennau atodol yn unig. Ni ddylai'r cyhoedd fod wedi gorfod tyrchu trwy ddogfennau atodol nad oeddent ar gael ar brydiau neu oedd ar gael ar wefannau anhygyrch yn unig, er mwyn darganfod statws yr Ardal o Dirwedd Arbennig oedd wedi bodoli ym mhob cwr o Ynys Môn ers 1996 a ddim bellach yn cael ei ystyried yn addas ar gyfer y CDLI ar y Cyd. Mae ymgynghoriadau yn ffordd o gael gwybodaeth gan randdeiliaid y gellir gwneud penderfyniadau cadarn yn eu sgil. O ran Cynlluniau Lleol, maent yn gyfle i gymunedau fedru bod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud am y lle ble maent yn byw a gweithio.

- 14)** O ddibynnu ar LANDMAP yn fwy na dim arall (o ran y dirwedd), mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi methu adnabod yr holl faterion a ddylai fod wedi eu cynnwys a'u hasesu. Arweiniodd hyn at y methiannau ym Mholisi Strategol PS16.

Mae adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Cynllun Adnau 2015, paragraffau 1.8, 1.9 a 1.12 yn rhoi gwybod i'r cyhoedd bod:-

Fod, datblygu cynaliadwy yng Nghymru yn golygu gwella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, cyrraedd gwell safon byw ar gyfer ein cenedlaethau ni a chenedlaethau'r dyfodol:

**Mewn ffyrdd sy'n hybu cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal; ac
Mewn ffyrdd sy'n gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parchu ei derfynnau –
trwy ddefnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear a chynnal ein hetifeddiaeth
ddiwylliannol.**

Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)... yn broses o sicrhau bod yr ardrawiadau amgylcheddol sylweddol a gyfyd yn sgil cynlluniau a rhaglenni yn cael eu hadnabod, eu hasesu, eu lliniaru, eu cyfleu i benderfynyddion a'u monitro. Mae proses yr AAS yn gofyn bod ystyriaeth yn cael ei roi o effeithiau positif a negyddol gweithredu cynlluniau a'u polisiau ac y gellir eu defnyddio i drwytho a galluogi mesurau amgylcheddol positif a rhagweithiol.

Mae Rheoliadau'r AAS yn gofyn bod materion amgylcheddol diffiniedig yn derbyn ymdriniaeth yn y broses asesu, rhain yw:

Bioamrywiaeth
Poblogaeth
Iechyd Pobl
Anifeiliaid
Llystyfiant/blodau
Pridd
Dŵr
Aer
Ffactorau Hinsawdd
Asedau Materol

Treftadaeth ddiwyllianol
Tirwedd
Rhyngberthynas yr uchod.

15) Mae'r **Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd** wedi methu â rhoi pwyslais digonol ar y dirwedd am ei fod yn cyfyngu'r asesiad a'r dangosyddion at ddefnyddio LANDMAP a dynodiad AHNE fel gwelir yn **Nhabl 2.2 Fframwaith SA Amcan Rhif 8**, fel a ganlyn:-

8. Gwerthfawrogi, gwarchod a gwella tirweddau gwledig a threfweddau trefol ardal y cynllun

(Pynciau AAS: tirwedd)

A fydd y cynllun yn:

Gwarchod a gwella nodweddion tirwedd arbennig ardal y cynllun, gan gynnwys AHNEau, tirweddau arfordirol/morluniau a threfluniau.

Diogelu a gwella safon gofod agored cyhoeddus mewn amgylcheddau gwledig ac adeiledig.

Sicrhau fod datblygiadau newydd yn cael eu cynnwys yn briodol ac yn sensitif ac yn cydfynd â chymeriad tirwedd a threfwedd ardal y cynllun.

Dangosyddion arfaethedig:

Cyfradd y nifer o dirweddau o ansawdd uchel/uchel iawn a adnabuwyd gan LANDMAP

Nifer / cyfradd o ddatblygiadau newydd mewn AHNEau

Nifer / cyfradd o ddatblygiadau newydd mewn ardaloedd sydd wedi derbyn dynodiad eithriadol gan LANDMAP.

O edrych ar **Dabl 2.6 Fframwaith SA ar gyfer Dewis Safle** gweler fod hyn yn gwbl annigonol.

Ym mhwynt 1 **“Cynnal a gwella bioamrywiaeth tirweddau gwledig ardal y Cynllun”** Mae'r angen i **“Warchod a gwella safleoedd daearegol a geoamrywiaeth ehangach”** yn cael ei gynnwys, ond fe'i ceir mewn cyd-destun bioamrywiaeth ac nid oes asesiad ymarferol wedi ei wneud.

Ym mhwynt 8 **“Gwerthfawrogi, gwarchod a gwella tirweddau gwledig ardal y cynllun”** Mae'r cyd-destun eto'n llwm gyda'r AHNE, gwerthusiad LANDMAP, a'r broses 'Safle Ymgeisio' yn unig yn cael eu hadnabod.

Mae hepgor beth oedd ar y pryd yn Geoparc Ewropeaidd o bryder enbyd ac yn dangos bod y broses asesu'n wallus.

16) Yn 2014 cafwyd 'Adolygiad o Gynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol'. Yn yr Asesiad Strategol dyweder:-

“Y dylai'r ACLI ystyried y berthynas rhwng y CDLI a chynlluniau, rhaglenni a pholisïau perthnasol eraill. Mae Cyfarwyddyd yr AAS yn benodol ofyn am i amcanion gwarchod yr

amgylchedd sydd ar waith ar lefel Ryngwladol, Cymuned Ewropeaidd neu genedlaethol gael eu hystyried.”

Ac

“Yn Atodiad 1 o’r Adroddiad Cwmpasu ceir adolygiad o’r cynlluniau a’r rhaglenni y’u bernir yn berthnasol i’r CDLI ar y Cyd. Cafwyd crynodeb o amcanion a goblygiadau allweddol cynlluniau a rhaglenni perthnasol ym mhob testun, a chafwyd crynodeb o negeseuon allweddol yr adolygiad ym mhrif adran yr adroddiad Cwmpasu.”

17) Methodd yr adroddiad, fodd bynnag, ag ail-ystyried ac asesu o’r newydd ddynodiad hirhoedlog Ynys Môn i gyd fel Ardal o Dirwedd Arbennig, er bod lleihad sylweddol ym maint y tir ar Ynys Môn sydd wedi ei ddynodi yn ADA yn y Cynllun Adnau o’i gymharu â’r dynodiad yn y cynllun statudol cyfredol. Ymddengys nad oes neb wedi holi’r cwestiwn amlwg – beth yn nhirwedd Ynys Môn sydd wedi newid mewn ffordd mor ddramatig ers 1996? Ni chafodd dynodiad UNESCO ei ystyried ar gyfer GeoMôn, dim ond datganiad ychwanegol yn **ATODIAD 2 – Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu’r GC (Arfarniad Cynaliadwyedd)** fel a ganlyn:-

Tirwedd

9.2 Mae GeoMôn wedi ei leoli ar Ynys Môn. Mae GeoParc wedi ei seilio ar amrywiaeth syfrdanol ei daeareg, o greigiau cadarn o’r cyfnod Cyn-gambriaidd i’r cyfnod Neogene gyda pheth dyddodiad Miocene a nodweddion rhewlifant Pleistocene eang o’r cyfnod Chwarteraidd.

18) Felly, mae’r cyfle wedi ei golli i asesu sut gellid cynnwys tirwedd, daeareg ac amgylchedd hanesyddol yn well yng ngweledigaeth ac amcanion y Cynllun wedi ei golli, er bod Amcan Strategol SO25 ar dudalen 92 yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn dweud:-

“SO25: Adnabod, gwarchod a, ble bo’n bosib, gwella lleoliadau, tirweddau ac adeiladau o bwys hanesyddol, diwylliannol ac archaeolegol ynghyd â’r ardal gyfagos.”

Mae’r methiant ag adnabod ac, yn hynny o beth, gwarchod y safle Geoparc UNESCO yn yr Aseiad Amgylcheddol Strategol yn fwyfwy anghredadwy o ystyried bod y weledigaeth ar gyfer y CDLI ar y Cyd fel a ganlyn:-

“Erbyn 2026, bydd Ynys Môn a Gwynedd yn adnabyddus am eu cymunedau bywiog sy’n dathlu eu diwylliant, treftadaeth a’u hamgylchedd ac am fod yn llefydd ble mae pobl yn dewis byw, gweithio ac ymweld. Mae hyn yn golygu y bydd ardal y CDLI ar y Cyd yn un:... ble mae cymeriad unigryw ei threftadaeth adeiledig a diwylliannol, ei chefn gwlad a’i thirwedd, a’i hamgylchedd yn cael ei werthfawrogi, ei warchod a’i wella.”

19) Er gwaethaf y datganiad cadarn hwn yn y Weledigaeth ar gyfer y Cynllun Adnau, ac er gwaethaf y ddyletswydd gofal dros safleoedd dynodedig rhyngwladol, nid ymddengys bod ATA Ynys Môn a’i dau safle UNESCO (y Geoparc Byd Eang a Safle Treftadaeth y Byd) yn Nhabl 23 PS16 nac yn y Cynllun Adnau Atodiad 7 – Rhestr o Ardaloedd dan Warchodaeth.

Rhaid i’r hepgoriadau hyn gael eu hunioni gyda’r canlynol:- ADA Ynys Môn; Geoparc Byd Eang GeoMôn; Safle Treftadaeth y Byd UNESCO Castell Biwmares.

Dylai Geoparc Byd Eang GeoMôn UNESCO hefyd gael ei gynnwys yn Fframwaith Monitro Drafft Diwygiedig SO16.

20) Dim ond unwaith y bydd Polisi Strategaeth PS16 yn gyflawn fel fframwaith strategol y bydd yn bosib adolygu'r polisiau mwy manwl yn adran 7.5.

Yr Amgylchedd Naturiol eitem 2 ar y Rhaglen.

Nid yw Polisi AMG1 yn gadarn – nid yw'n addas ar gyfer Ynys Môn am nad yw wedi ei ategu gan dystiolaeth gadarn ac nid yw'n cydymffurfio â Pholisi Cenedlaethol oherwydd gwallau a diffygion trefniadol, cysondeb, cydlynad ac effeithiolrwydd.

21) Pan ydym yn ystyried polisiau manwl y Cynllun Adnau, i ddechrau mae'n ddefnyddiol edrych ar y tri pholisi tirwedd a'r testun perthynol yn y cynllun statudol lleol cyfredol (Cynllun Lleol Ynys Môn 1996). Gweler ysgrifen las isod:-

Tirwedd.

Polisi 30. Yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (sy'n cynnwys yr Arfordir Treftadaeth) y'i dangosir ar y Map Cynigion, wrth ystyried ceisiadau cynllunio bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i warchod a gwella'r dirwedd.

4.26 Mae'r Cyngor o'r farn bod gan bob rhan o Ynys Môn nodweddion o dirwedd arbennig. Mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ac ar hyd yr Arfordir Treftadaeth, gwarchod harddwch naturiol ddylai'r pennaf amcan fod.

Polisi 31. Ac eithrio'r AHNE, a'r tir sydd y tu mewn i ffiniau annedleoedd fel y'u diffinir yn ôl y Cynllun, mae'r ynys wedi ei dynodi'n Ardal o Dirwedd Arbennig. Bydd gofyn i geisiadau datblygu yn yr Ardaloedd o Dirwedd Arbennig roi ystyriaeth arbennig i gymeriad arbennig yr ardal gyfagos. O ystyried ardrawiad unrhyw gynnig ar y dirwedd, bydd angen i'r Cyngor fod yn fodlon bod modd i'r datblygiad weddu i'r ardal o'i gwmpas, heb niwed annerbyniol i gymeriad cyffredinol y dirwedd, cyn rhoi caniatâd cynllunio.

GWEITHREDU

4.28 Bydd y polisiau yn cael eu gweithredu fel a ganlyn:

a. Bydd y Cyngor yn defnyddio ei rymoedd dros ddatblygu i warchod Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a'r Arfordir Dreftadaeth rhag datblygu anaddas.

b. Mewn ardaloedd eraill ar yr Ynys, bydd rhaid i ddatblygiadau barchu'r dirwedd leol.

c. Pan fo adnoddau'n caniatáu, bydd y Cyngor yn paratoi strategaeth dirweddol ddiwygiedig ac wedi'i diweddarau trwy ymgysylltu â Chyngor Cefn Gwlad Cymru er mwyn:-

* dosbarthu cymeriad y dirwedd;

* asesu'r ardrawiad tebygol ar y dirwedd a ddaw yn sgil newidiadau yn nefnydd tir yn y dyfodol a sut gellir ymdopi â hyn;

* datblygu canllawiau i benderfynnu ceisiadau er mwyn gwarchod a gwella nodweddion sy'n cyfrannu at gymeriad y dirwedd;

* amlygu ardaloedd blaenoriaeth tirwedd ble gellir gweithredu.

ch. Bydd y Cyngor yn defnyddio Gorchymyn Gwarchod Coed er mwyn atal colli coed sy'n ffurfio nodweddion deniadol yn y dirwedd ac sydd dan fygythiad.

d. Mae Ynys Môn wedi ei dynodi yn Ardal Amgylcheddol Sensitif. Diben AAS yw diogelu rhannau o gefn gwlad ble mae pwysigrwydd cenedlaethol i'r dirwedd, bywyd gwyllt neu eu bod o ddiddordeb hanesyddol o bwys cenedlaethol. Mae ffermwyr yn medru cael grantiau i reoli'r tir er mwyn cynnal yr amcanion hyn.

dd. Fel rhan o'r cynigion ar gyfer adennill tir a restrir ym mholisi 38 isod.

22) Fe wnaeth y Cyngor baratoi "strategaeth dirwedd ddiwygiedig ac wedi'i diweddarau trwy ymgynghoriad â Chyngor Cefn Gwlad Cymru", fel nodwyd yng Nghynllun Lleol Ynys Môn 1996. Cafwyd crybwylliad byr o 'Reoli Daearegol' yn Niweddariad Strategaeth Dirwedd Ynys Môn 2011 mewn perthynas ag un o'r Ardaloedd Cymeriad y Dirwedd (Mynydd Caergybi) ond ar waethaf 'gwerthusiad matrices' manwl, mae'r Strategaeth wedi methu ag adnabod rhinweddau unigryw Ynys Môn yn ei chyfanrwydd. Yn hytrach, mae matrices yn rhoi pwyntiau i nodweddion daearegol mwyaf amlwg pob Ardal Cymeriad y Dirwedd, yn unol â'r fethodoleg oedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn ei defnyddio ar y pryd i werthuso ardaloedd tirwedd Cymru gyfan. Bu i'r fethodoleg, fodd bynnag, fethu ffenomenon arbennig ac unigryw daeareg ynysodd Ynys Môn, ac ni chynigiodd y Strategaeth unrhyw weledigaeth o sut a pham ei bod yn bwysig gwarchod a gwella'r Geoparc.

23) O'i chymharu â hyn, mae symlrwydd cysyniad a geiriad paragraff 4.26 a Pholisi 31 Cynllun Lleol Ynys Môn yn crisialu pwysigrwydd tirwedd arbennig Ynys Môn a'r angen i ddatblygiadau ei pharchu.

24) Yn ystod 2012, bu i'r Ymgynghorwyr Defnydd Tir (YDT) baratoi Adolygiad o Ardaloedd o Dirwedd Arbennig yng Ngwynedd ac Ynys Môn (dyddiad yr adroddiad terfynol Rhagfyr 2012). Ceir yma Fap o Ardaloedd Cadwraeth Tirwedd oedd gynt yng Ngwynedd, ond nid oes map cyffelyb i ddangos ehangder Ardal o Dirwedd Arbennig Ynys Môn, fel y dynodwyd yng Nghynllun Lleol Ynys Môn 1996. Mae adroddiad yr YDT yn cyfiawnhau'r rheswm pam y dylai Ardaloedd Cadwraeth yng Ngwynedd gael dynodiad ADA, ond nid yw'n darparu cyfiawnhad mor fanwl, h.y. digonol, o ran pam y dylai Ynys Môn gael diddymu'r dynodiad ADA sy'n bodoli ar gyfer yr ynys gyfan. Daw hyn er gwaethaf y ffaith bod y newid arfaethedig i'r Cynllun Lleol ar gyfer Ynys Môn yn amlwg yn newid llawer mwy na'r hyn sy'n cael ei gynnig ar gyfer Cynllun Lleol Gwynedd. Ymddengys bod y ddadl wedi ei chynnwys ym mharagraff 3.3 yr adroddiad, sef nad oedd unrhyw dystiolaeth i gyfiawnhau cynnwys y dynodiad yn y CDU a ddaeth i ben yn 2005. Nid yw'r ddadl hon, fodd bynnag, wedi ei seilio ar asesiad o'r ffeithiau oedd yn wybyddus yn 2012, ac mae'n wallus beth bynnag am mai dim ond fel

ystyriaeth faterol y mae'r CDU yn cyfrif ble mae bwriad i'r CDLI ar y Cyd ddisodli Cynllun Lleol Ynys Môn 1996 a fydd yn parhau yn ei lawn rym hyd nes bydd y CDLI ar y Cyd yn cael ei ddefnyddio.

- 25)** O ystyried natur AHNE Ynys Môn fel y'i disgrifir ym mharagraff 5 y datganiad hwn, ac o ystyried yn ofalus y berthynas rhwng yr AHNE a dynodiadau eraill, gan gynnwys GeoMôn, mae'n bwysig ystyried y manau hynny yn nhirwedd Ynys Môn sy'n gweithredu fel amddiffynfa i warchod golygfeydd tuag at ac oddi wrth yr AHNE. Mae adroddiad yr YDT yn cydnabod hyn ac yn nodi'r angen arbennig am amddiffynfa ar gyfer y Fenai. Ym mharagraff 1.4, fodd bynnag, eglurir:- Bod y CDU wedi pleidleisio dros beidio adnabod Ardaloedd o Dirwedd Arbennig ar yr Ynys. Ac mae hyn, i bob diben, yn rhagfarnu ac yn rhagnodi'r broses werthuso ac fe'i defnyddir fel Sylfaen i ffiniau'r Ardaloedd Chwilio. Yn wahanol i hyn, treuliyd cryn amser a rhoddwyd cryn sylw i dirweddau yng Ngwynedd. Yn anffodus, yn sgil y ddibyniaeth ar y penderfyniad a gymerwyd yn ystod y broses CDU, rhoddwyd sylw annigonol i'r dirwedd ddaearegol, ac nid oedd data LANDMAP yn darparu'r wybodaeth ychwaith, fel gwelir yn amlwg o'r tabl ar dudalen 8 adroddiad yr YDT. Mae adroddiad yr YDT yn edrych yn fanwl ar Ardaloedd Cadwraeth Tirwedd Gwynedd a ble nad yw'n eu hargymell ar gyfer dynodiad ADA, mae oherwydd bod dynodiad arall o'r fath yn bodoli yno, megis Parc Cofrestredig Gradd 1 neu ei bod yn Dirwedd o Bwysigrwydd Hanesyddol Eithriadol a'i bod yn rhan o gais am statws Safle Treftadaeth y Byd. O'i chymharu â hyn, nid cheir asesiad tebyg yn Ynys Môn ac nid yw'r adroddiad yn sôn o gwbl am y Geoparc Ewropeaidd a'i gais am statws Geoparc Byd Eang. Mae'n amlwg, felly, y dylid ail ystyried yr AC a'r AAS, o ran dynodiad GeoMôn a'r ADA mewn perthynas ag Ynys Môn.
- 26)** Mae'r YDT yn honni ei fod wedi mynd i'r afael ag "ymarferiad gwirio maes trylwyr" (tudalen 3 paragraff 2.3) ac eto ymddengys na welodd mo'r Geoparc Ewropeaidd na sylwi, yn y cyd-destun hwn beth bynnag, lwy'r bwysigrwydd pwyntiau gwerthuso Tabl 2.2.1 LANDMAP yn ei adroddiad ei hun. Mae'r tabl yn datgan yn amlwg y dylai safleoedd o bwys rhyngwladol gael sgôr "Eithriadol".
- 27)** Ceir anghysondebau neu gamgymeriadau eraill yng ngwerthusiad yr YDT a'u hasesiad o'r data. Er enghraifft, caiff Llansadwrn ei adnabod fel bod yn rhan o 'Ardal Agwedd LANDMAP' ar gyfer Llethrau Coediog Biwmares ac ADA Dyffryn Llangoed. Mae Llansadwrn yn diwallu pob un o feini prawf dynodiad ADA. Saif y pentref gwledig ar dir uchel â rhan o hwnnw'n grib (yn mynd tuag at Landdona a'r AHNE) a'r gweddill yn llwyfandir ym mlaenau Cwm Cadnant. Mae'r holl ardal yn gefnlen bwysig i'r Fenai a'r AHNE. Ceir golygfeydd eang o Barc Cenedlaethol Eryri oddi yno ac mewn manau mae'r golygfeydd yn banoramig gan gynnwys tuag at Draeth Coch. Fe'i cysylltir ag artistiaid adnabyddus megis Kyffin Williams. Trigai Ed Povey yno am flynyddoedd yn Arcady ger Eglwys Sant Sadwrn. Mae hwn yn dŷ anghyffredin a chanddo olygfeydd panoramig ac mae bellach yn dirnod lleol:-

<http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/most-artistic-home-wales-2373096>

Adeiladwyd tŷ haf Hafoty yn ystod cyfnod cynharach am ei olygfeydd eithriadol. Mae bellach dan ofal CADW. Mae mewn safle tawel braf o hyd a chanddo olygfeydd godidog. Yn wir,

mae'r ardal gyfan yn gyfuriog o nodweddion hanesyddol ac archaeolegol mewn tirwedd sy'n amrywio o gribau ymwithiol a chreigiau brigog i gaeau gwledig a chloddiau cerrig, perthi hynafol a lonydd coediog, a hefyd yr afon a llyn y felin, a Gwarchodfa Natur Llandegfan. Llansadwrn yw'r unig ardal yn 'ardal agwedd' yr ADA sydd â sgôr o 4 'Eithriadol' ar y matrices, eto mae wedi ei hepgor o fap yr ADA. Rydym yn cymryd bod y map wedi ei darlunio'n anghywir, gan ddefnyddio'r ffordd anghywir yn ffin iddi.

28) Mae'n amlwg bod yr YDT wedi cael trafferth gwerthuso a gwneud synnwyr o ddata LANDMAP (gweler paragraff 2.16 – 2.20), am na chafodd tirweddau dynodedig y Parc Cenedlaethol na'r AHNE sgôr uchel. Dylai hyn fod wedi eu hysbysu o broblem oedd angen mwy o ymchwil a thystiolaeth. Yn hytrach, ymddengys bod yr YDT wedi trin y data i weddu'n well, er mwyn diwallu disgwyliadau penodol a chyfiawnhau'r datganiadau cyffredinol a wnaed ym mharagraff 3.4. Mae'n amlwg o baragraffau 3.3 a 3.4 fod tirwedd Ynys Môn wedi derbyn ymdrinaeth ddiotal a brysiog iawn a'i bod wedi ei diystyru ar fyrder.

29) Beth sydd hefyd yn amlwg yw bod y fethodoleg a ddefnyddiodd LANDMAP o rannu ardaloedd ehangdirol yn "unedau arwahanol neu bolygonau", a elwir 'ardaloedd agwedd' (tudalen 4, paragraff 2.6), efallai'n briodol ac, yn wir, yn ddefnyddiol er mwyn asesu ardaloedd ehangdirol mawr iawn megis gweddill Cymru, yn arbennig pan nad oes dynodiad yn bodoli'n barod. Ond mae'n gwbl amhriodol pan mai hwn yw'r unig fethodoleg a ddefnyddir er mwyn asesu Ynys cymharol fechan sy'n hawdd i'w hadnabod ac sy'n unedig a chanddi dirwedd, diwylliant a hanes nodedig iawn ac unigryw. Yn yr achos hwn, er mor ddefnyddiol ydyw, mae hefyd wedi llwyddo i gymylu'r darlun ehangach.

30) Nid yn unig bod gwerthusiad yr YDT o Ynys Môn yn annigonol, roedd hefyd yn oddrychol o ran ei ddetholiad o'r hyn elwid yn ddata o bwys. Mae'n anodd osgoi barnu'n oddrychol mewn materion cynllunio, ond o edrych arni, mae'n bur amlwg fod tirlun Ynys Môn yn amgylchedd llawer prydfferthach, mwy daearegol a bio-amrywiol na llawer o lefydd eraill yn y DU a chanddynt ddynodiad AHNE, gweler Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yr High Weald, er cymhariaeth.

Beth sy'n amlwg, o leiaf, yw bod Ynys Môn yn diwallu'r holl feini prawf ar gyfer ADA fel rhestrir yn Nhabl 2.3 yr adroddiad. Ac yn sgil ei dynodiad a'i statws rhyngwladol, mae'r cyfiawnhad ADA ar gyfer yr ynys gyfan y tu hwnt i angen lleol.

31) Yn anffodus, nid oedd modd i randdeiliaid graffu adroddiad yr YDT am ei fod ar gael ar ffurf Crynodeb Gweithredol ar wefannau'r Cynghorau perthnasol yn ystod cyfnodau o ymgynghori yn unig. Roedd rhaid gwneud cais am yr adroddiad llawn yn ddiweddarach gan yr UPCC. Felly ni chafodd y diffygion, y camgymeriadau a'r hepgoriadau eu canfod yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus.

32) Daw symrlwydd Polisi 31 yn y Cynllun Lleol cyfredol yn sgil ei ymdriniaeth o Ynysoedd Môn (sef, Ynys Môn a'i hynysoedd perthynol) yn eu cyfanrwydd a'i fod yn cydnabod parhad tirwedd arbennig sy'n ymestyn o dirwedd ddynodedig yr AHNE at dirwedd perfeddwlad wledig Ynys Môn. Fodd bynnag, mae'r cysyniad hwn fod tirwedd Ynys Môn gyfan yn

'arbennig' wedi ei golli wrth greu'r CDLI ar y Cyd. Eto, dyma'n union y mae dynodiad Geoparc Byd Eang yn ei adnabod ac o wneud hyn, mae UNESCO yn ei gwneud yn ofynnol i ni ymdrin â gwarchod GeoMôn mewn "ffordd gyfannol".

- 33)** Cyfyd y cwestiwn, nawr, ynglŷn â sut i unioni'r hepgoriad pur amlwg iawn a methiant y Cynllun Adnau i roi ymdriniaeth ddilys i fodolaeth y Geoparc Byd Eang.
- 34)** Er mwyn rhoi dynodiad UNESCO ar waith a sicrhau ei fod yn meddu ar y grymoedd cywir mewn cyd-destun cynllunio, gellid diwygio Polisi AMG1 – ADA i gynnwys meini prawf gwarchodaeth ar gyfer y Geoparc. Byddai hyn yn adfer y statws ADA trwy Ynys Môn i gyd a byddai hefyd yn datrys y broblem o'r ymgynghoriad cyhoeddus gwallus a chamgymeriadau a hepgoriadau eraill.

Dylai Polisi AMG1 felly gael ei ddiwygio fel a ganlyn:-

POLISI AMG1: ARDALOEDD O DIRWEDD ARBENNIG

Wrth ystyried cynigion o fewn Ardaloedd o Dirwedd Arbennig (ADA) fel y'u hadnabwyd ar y map cynigion a'u rhestru isod, bydd angen ystyried graddfa a natur y datblygiad yn briodol, a thrwy hynny sicrhau nad oes ardrawiad andwyol ar y dirwedd. Yn y datblygiad, dylid anelu at ychwanegu nodweddion hanesyddol, gweledol, daearyddol, daearegol, ecolegol a diwylliannol yr ADA.

Dylid ychwanegu'r frawddeg ganlynol ar ddiwedd y paragraff eglurhaol

7.5.9 ... Mae Ynys Môn hefyd yn Geoparc Byd Eang.

Dylid cyfnewid paragraff eglurhaol olaf 7.5.10 am y canlynol:-

7.5.10... Mae ADA wedi eu hadnabod yng Ngwynedd, mae Ynys Môn yn ADA.

Wedyn dylid diwygio Tabl 24 yn unol â hyn:-

11. Ynys Môn

Bydd yr UPCC wedyn angen paratoi Datganiad o Bwysigrwydd a gallai hwn gynnwys y wybodaeth y cyfeirir ati yma o ran dynodiadau UNESCO a natur ddiwylliannol ac amgylcheddol Ynys Môn.

- 35)** Os, yn hytrach, nad yw Geoparc Byd Eang GeoMôn yn cael ei ystyried yn sail am ADA, yn unol â'r ffaith hwnnw, yna bydd **rhaidd cynnal adolygiad o ADA Ynys Môn**. Mae'n amlwg fod yr adolygiad a gynhaliwyd gan yr YDT yn rhy amgylchol mewn perthynas ag Ynys Môn; fod y sylw a roddwyd i Ynys Môn yn bur annigonol; ac mai ychydig iawn o waith maes a wnaethpwyd. Mae cymeriad ynys Ynys Môn yn wahanol iawn i dirwedd a morlun Gwynedd. Mae'r topograffi yn fryniau esmwyth a'i hagwedd yn llawer mwy agored a sensitif i newid. Mae'r meini prawf a osodir ar gyfer asesu tirwedd o bwysigrwydd lleol angen ystyried y gwahaniaethau a chydabod bod unigrywiaeth lleol penodol Ynys Môn, o bosib, angen ymdriniaeth wahanol er mwyn cyflawni datblygiad cynaliadwy da.

Y gwrthgyferbyniad rhwng Ynys Môn a Gwynedd sy'n gwneud y rhan hon o ogledd Cymru mor nodedig a deniadol, a phan yw'r ddwy sir yn cael eu gweld yn eu cyfanrwydd, mae'n lle arbennig iawn.

- 36)** Byddai'r mater o'r tanategu statudol angenrheidiol ar gyfer GeoMôn wedyn angen cael ymdriniaeth ar wahân trwy roi polisi penodol newydd ar waith sy'n cael ei ategu gan AC a ADA diwygiedig.

Amgylchedd Naturiol eitem 5 ar y Rhaglen – nid yw'r Cynllun Adnau yn gadarn am nad yw'n gwarchod yr amgylchedd naturiol yn effeithiol ac nid yw'n llwyddo i adlewyrchu pwysigrwydd y dynodiadau rhyngwladol a chenedlaethol.

- 37)** Heb y newidiadau fel y'u hamlinellir uchod, ni fydd y CDLI ar y Cyd yn gwarchod amgylchedd naturiol Ynys Môn yn effeithiol nac yn adlewyrchu pwysigrwydd perthynol dynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol.

Mae'r broses o greu cynlluniau a mynd i'r afael ag AC ac ADA yn hanfodol er mwyn adnabod ac asesu tirweddau dan warchodaeth a safleoedd gwarchod natur yn foddhaol. Methu ag adnabod ac asesu'r Geoparc Byd Eang yw gwall amlycaf y Cynllun Adnau. Ond mae'r rhagdybion a wnaethpwyd, ynghyd â'r detholiad a'r driniaeth fwriadol o'r data yn adolygiad yr YDT y tu hwnt i'r mater o anwybyddu tirwedd gyfan sydd wedi derbyn dynodiad rhyngwladol i gydnabod ei rhinweddau eithriadol. Mae'r adroddiad yn dangos nad yw'r gwerthusiad o dirwedd Ynys Môn wedi bod yn ddigon cadarn ac na ddylai fod yn sail i gynllun ar gyfer Ynys Môn.

Amgylchedd Naturiol eitem 8 ar y Rhaglen: Materion Eraill.

- 38)** Diben yr ymgynghoriad yw cyfathrebu gyda'r cyhoedd a galluogi'r cyhoedd i drwytho'r bobl broffesiynol sydd â'r dasg o gynllunio'r materion sy'n berthnasol er mwyn cael canlyniadau da. Mae UNESCO yn hybu'r math yma o ymdriniaeth o'r gwaelod i'r brig a chyda'r anian hwnnw yr wyf i'n gobeithio y bydd y bobl broffesiynol sy'n ymdrin â'r Archwiliad hwn o'r Cynllun Lleol yn ystyried y sylwadau hyn.

RHAN 2: Eich Sylwadau a Newidiadau a Awgrymir. (*Defnyddiwch un adran Rhan 2 ar gyfer pob sylw yr hoffech ei wneud*)

2a. Ar ba ran o'r Cynllun Adnau yr ydych chi'n gwneud sylwadau?	
Rhif y polisi (<i>nodwch</i>)	AMG1
Rhif y paragraff (<i>nodwch</i>)	
Cynigion/ Map Mewnosod (<i>nodwch y cyfeirif</i>)	
Map Cyfyngiadau	
Atodiadau (<i>nodwch</i>)	

2b. A ydych yn gwrthwynebu neu'n cefnogi'r Cynllun Adnau?

Gwrthwynebu	Cefnogi
-------------	---------

2c. Rhowch fanylion eich sylwadau ar y Cynllun Adnau.

Yng Nghynllun Datblygu Lleol Ynys Môn 1996 adran 31 ar y Tirlun mae'r canlynol:
"4.26 Mae'r Cyngor yn ystyried fod gan bob rhan o Ynys Môn rinweddau arbennig o ran tirwedd" (fy mhwyslais)

"31. Ag eithrio'r AHNE a'r tir sy'n disgyn o fewn ffiniau anheddiadau fel y diffinnir yn y Cynllun, mae'r ynys wedi'i dynodi fel Ardal Tirlun Arbennig."

Mae Ynys Môn yn wir yn lle arbennig. Ac eto, yn y cynllun newydd, mae'r statws Ardal Tirwedd Arbennig wedi'i gyfyngu i ychydig o ardaloedd o'r ynys yn hytrach na'r cyfan. Onid yw'r gweddill o dirweddau'r ynys y tu allan i'r Ardal Tirwedd Arbennig, yn ôl y dynodiad sydd wedi ymddangos erbyn hyn, hefyd yn arbennig. Pam? Beth sydd wedi newid? Onid yw'r ynys bellach yn arbennig? Gallai'r meini prawf a ddefnyddir erbyn hyn i ddynodi ardaloedd o Dirwedd Arbennig yn y cynllun hwn fod yr un mor berthnasol i ran neu i'r cyfan o'r ynys, yn ôl Cynllun Datblygu Lleol 1996. Mae'r polisi'n rhyfedd ac yn ddisail. Er enghraifft, cydnabyddir fod Ynys Môn yn ardal sydd o arwyddocâd daearegol, amgylcheddol a diwylliannol unigryw, yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae yna bosibilrwydd gwirioneddol y bydd UNESCO yn dyfarnu statws uwch geoparc byd eang i Ynys Môn eleni, sef y statws sy'n *rvfystwr â Safle Treftadaeth y Rvd*

Mae'r Cynllun Lleol ar y Cyd hwn yn annigonol oherwydd nad yw'n cydnabod pa mor arbennig yw holl dirweddau Ynys Môn ac, felly, nid yw'n cynnig gwarchodaeth ddigonol iddyn nhw yn erbyn datblygiadau anaddas ac yn hynny o beth mae'n ddiffygiol. Mae'n gwrthdroi polisi hirhoedlog heb gyfiawnhad, mandad na thystiolaeth ddigonol.

2d Rhowch fanylion y newidiadau yr hoffech eu gweld i'r Cynllun Adnau

AMG1
Dynodi Ynys Môn yn ei chyfanrwydd fel Ardal Tirlun Arbennig.

Defnyddiwch dalen ychwanegol os oes angen

Datganwch faint o ddalenni ychwanegol sydd wedi'u defnyddio

RHAN 2: Eich Sylwadau a Newidiadau a Awgrymir. (Defnyddiwch un adran Rhan 2 ar gyfer pob sylw yr hoffech ei wneud)

2a. Ar ba ran o'r Cynllun Adnau yr ydych chi'n gwneud sylwadau?	
Rhif y polisi (nodwch)	YNNI GWYNT AR Y LAN ADN1
Rhif y paragraff (nodwch)	7.2 (tudalennau 84-86)
Cynigion/ Map Mewnosod (nodwch y cyfeirif)	Amherthnasol
Map Cyfyngiadau	Annarllenedwy
Atodiadau (nodwch)	Amherthnasol

2b. Ydych chi'n gwrthwynebu neu'n cefnogi'r Cynllun Adnau?

Gwrthwynebu	9.	Cefnogi
--------------------	-----------	----------------

2c. Rhowch fanylion eich sylwadau ar y Cynllun Adnau.

1. Mae yna ddiffyg sylfaenol ym mholisi ADN1 yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Adnau.

22 Cyflwynodd Strategaeth a Ffafir y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd gynllun cyffredinol amhenodol ar gyfer ynni adnewyddol. Doedd dim argoel yn y Strategaeth a Ffafir o'r geiriad nac o'r diffiniadau rhyfeddol sydd wedi ymddangos yn y Cynllun Adnau o dan bwyntiau 1, 2 a 3 o'r Polisi ADN1.

3. Mae Ymgyrch Gwarchod Cymru Wledig Ynys Môn yn gwrthwynebu'n gryf eiriad Polisi pwyntiau 1 a 2 yn ADN1, a fydd, ar eu ffurf bresennol, yn arwain at ddinistrio cymeriad tirwedd canol Môn.

4. Rydym hefyd yn gwrthwynebu'n gryf bwynt 3 o ADN1, gan y byddai'r rhan yma o'r polisi'n annog datblygiadau cwbl amhriodol o dyrbinau gwynt 15 metr o uchder mewn lle y dylai tirweddau fod yn cael eu gwarchod fwyaf, h.y. yr Ardal o Harddwch Eithriadol Naturiol.

5. Mae Cangen Ynys Môn o Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig yn disgwyl y bydd tirweddau Ynys Môn yn cael o leiaf yr un warchodaeth gan y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ag a geir gan y Cynllun Lleol presennol (Cynllun Lleol Ynys Môn 1996).

6. Nid oeddem yn disgwyl y byddai polisi'n ymddangos a fyddai'n tynnu amddiffyniad oddi ar bron iawn y cyfan o dirwedd mewndir yr ynys. Ond dyma sydd i'w weld ym Mholisi ADN1. Mae geiriad y polisi fel ag y mae, ynghyd â'r diffyniad a roddir i faint y tyrbinau, yn ei gwneud yn glir i ddarpar ddatblygwyr mai ychydig iawn o rwystrau sydd i ddatblygu tyrbinau gwynt hyd at 50 metr o uchder yn unman, bron, yng nghanol Môn. Ac nad oes terfyn ar y nifer a allai gael eu hadeiladu.

7. Dynododd Polisi 31 o Gynllun Lleol Ynys Môn 1996 y cyfan o Ynys Môn, y tu allan i'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a ffiniau aneddiadau, yn Ardal Tirwedd Arbennig. Cytunodd yr Arolygydd â'r dynodiad pan gafodd y Cynllun ei gymeradwyo ac roedd yna gydnabyddiaeth glir o gymeriaid 'arbennig' ac o harddwch yr ynys. Mae Môn yn mwynhau'i enw da am fod yn lle 'arbennig' ac mae'i nodweddiad arbennig yn cael eu hedmygu ymhell ac agos. Fodd bynnag, mae 'hanfod' a 'chalon' yr ynys hon ar fin cael eu colli o ganlyniad i un cynllun polisi difeddwl.

8. Mae'n rhaid gwyrdroi'r camgymeriad hwn. Mae'n rhaid cydnabod ar frys, ar wahân i rai ardaloedd diwydiannol newydd, megis y ffermydd gwynt yng ngogledd yr ynys,

na fu unrhyw newid arwyddocaol yng nghymeriad tirwedd mewndir yr ynys ers gosod y dynodiad gwreiddiol. Yn syml, does dim cyfiawhad dros dynnu statws Ardal Tirwedd Arbennig oddi ar y rhan fwyaf o fewndir yr ynys. Dylid adfer statws Ardal Tirwedd Arbennig ar y rhan fwyaf o'r ynys ar unwaith ac dylai polisiau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd adlewyrchu arwyddocâd cymeriad arbennig tirlun mewndir yr ynys.

9. Ni ddylid gadael i bolisi gwallus ynghylch ynni gwynt ar y lan ddinistrio cymeriad a gwriad mewndir yr ynys.

10. Rydym yn deall, yn ystod dyddiau cynnar paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, y bu'r Swyddog Cynllunio oedd â chyfrifoldeb am drefnu gwaith a chynnydd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, yn paratoi canllawiau cynllunio atodol ar gyfer ynni gwynt ar y lan. Cofnodwyd hyn yng nghofnodion cyfarfod y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 17 Mehefin 2011. Roedd hyn i'w baratoi mewn ymateb i bryderon ynghylch effaith tyrbinau gwynt. Codwyd a thrafodwyd y pryderon hynny yn y cyfarfod.

11. Gan na fu unrhyw ymgynghoriad arall ynghylch ynni gwynt ar y lan yn Ynys Môn yn ystod proses y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, rydym yn cymryd mai'r ymgynghoriad ynghylch 'Canllawiau

Cynllunio Atodol: Ynni Gwynt Ar y Lan' a wnaed ar Ynys Môn yn ystod 2012 oedd y Canllawiau Cynllunio Arbennig y cyfeiriwyd atynt yn y cyfarfod ar 17 Mehefin 2011.

12. Fel y gwyddom, achosodd yr ymgynghoriad Canllawiau Cynllunio Arbennig 2012 ymateb heb ei fath gan y cyhoedd, gyda dros 9000 o sylwadau oddi wrth aelodau'r cyhoedd. Ymateb llethol trigolion Ynys Môn oedd galw am gyfyngiadau penodol a fyddai'n rhwystro rhagor o tyrbinau gwynt mawr rhag cael eu datblygu ar yr ynys.

13. Llofnododd 8000 o drigolion ddeiseb yn galw am wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw dyrbinau gwynt masnachol yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol neu mewn ardaloedd dynodedig eraill ac am barth byffer o 1.5k rhwng ddatblygiadau newydd o dyrbinau gwynt masnachol a thrigfannau.

14. Ym mis Ionawr 2013 mabwysiadodd y Cynghorwyr Sir y canllawiau cynllunio atodol ar ôl darparu ar gyfer parthau byffer yn ôl maint y tyrbinau.

15. Mae Ymgyrch Gwarchod Cymru Wledig Ynys Môn yn cefnogi'r egwyddor o barthau byffer a chyfyngiadau ar uchder ar ddatblygiadau tyrbinau gwynt yn Ynys Môn. Rydym yn ystyried fod y Canllawiau Cynllunio Arbennig sydd wedi'u mabwysiadu wedi helpu i liniaru pryderon y rhan fwyaf o bobl ynghylch tyrbinau gwynt ac, yn gyffredinol, eu bod wedi helpu i atal datblygiadau amhriodol.

16. Rydym felly'n rhyfeddu o ddarganfod fod y dull a oedd gan Gynghorwyr Sir Ynys Môn wedi'i ddisodli mor ddi-hid, fod y Canllawiau Cynllunio Arbennig a fabwysiadwyd wedi'u hanwybyddu a bod anghenion a dymuniadau pobl Môn hefyd wedi'u hanwybyddu. Rydym o'r farn fod hyn yn gwneud Polisi ADN1 yn ddiffygiol.

17. Nid yw Ymgyrch Gwarchod Cymru Wledig Ynys Môn yn gweld unrhyw reswm i newid y diffiniad / disgrifiadau a roddwyd i faint tyrbinau nac i gynyddu disgrifiadau o'u uchder yn fwy na'r rhai a ddefnyddir yn gyffredinol gan Lywodraeth Cymru.

**18. Roedd y dogfennau a ddefnyddiwyd fel rhan o ymgynghoriad Canllawiau Cynllunio Arbennig 2012 yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ac yn disgrifio'r ystod uchder 'nodweddiadol' o:-
Tyrbinau "micro / domestig" fel 11 metr at flaen y llafn".
"Tyrbinau bychain fel rhai hyd at 20 metr at flaen y llafn" a
"Tyrbinau canolig fel rhai 65 metr at flaen y llafn".**

19. Mae'r diffiniadau o faint a gyflwynwyd ar gyfer ymgynghori yn nogfennau 2012 yn gyson â'r maint a ddefnyddiwyd yng Ngorchymyn Datblygu a Ganiateir yn Gyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer Tyrbinau Gwynt Unigol, ac â chyfeiriadau, canllawiau a llenyddiaeth eraill polisi cynllunio ynghylch technolegau tyrbinau gwynt.

20. Does dim cyfiawnhad dros newid y derminoleg hon na rheswm chwaith dros gyflwyno meintiau mwy i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

21. Rydym o'r farn nad yw Polisi ADN1 yn gyson â Pholisi Cynllunio Cymru mewn nifer o agweddau.

22. Nid yw Polisi ADN1 yn gyson gyda 12.8.1 Polisi Cynllunio Cymru, Datblygu Cynaliadwy, gan nad yw'r polisi'n "gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau (Môn, nac yn) rhoi gwell ansawdd bywyd iddyn nhw."

23. Nid yw Polisi ADN1 yn talu sylw daladwy i'r canllaw yn TAN8, sy'n rhoi caniatâd i Awdurdodau Cynllunio lleol fabwysiadu "set o feini prawf lleol a fyddai'n penderfynu pa mor dderbyniol yw cynlluniau (llai na 5MW) o'r fath ac yn ddiffinio'r fanylach yr hyn y mae 'llai' ac 'ar sail cymunedol' yn ei olygu. Dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried y materion hyn yn ofalus a darparu meini prawf sy'n briodol ar gyfer amgylchiadau lleol."

24. Nid yw'r rhestr o feini prawf o fewn Polisi ADN1 yn cynnwys:-

(a) yr angen i warchod neu ddiogelu cyfanrwydd economaidd ardal, megis yr angen i ddiogelu tirwedd er budd cyflogaeth leol mewn twristiaeth a hamdden. Mae hyn yn fethiant enfawr a fyddai'n arwain at ganlyniadau alaethus i Ynys Môn pe na byddai'n cael ei gywiro.

Mae Polisi 45 o Gynllun Lleol Ynys Môn fel a ganlyn:-

Bydd prosiectau ynni adnewyddol yn cael eu caniatáu pan fydd yn bosibl dangos yn glir nad fydd unrhyw effeithiau annerbyniol ar:-

Cymeriad y Tirwedd

ii) Safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol neu leol o ran cadwraeth natur;

iii) Rhywogaethau o bwysigrwydd cadwraeth natur;

iv) Y safon o fwynder sy'n cael ei fwyhau gan boblogaethau'r trigolion a'r ymwelwyr.

v) Gwasanaethau a Chysylltiadau Cyhoeddus Hanfodol

b) yr angen i ddiogelu tir amaethyddol a choetir cynhyrchiol.

c) yr angen i ddiogelu cynefinoedd bywyd gwyllt

d) yr angen i ddiogelu tirweddau o bwysigrwydd diwylliannol, archeolegol a daearegol

e) yr angen i warchod a chadw adnoddau naturiol ardal y cynllun

f) yr angen i greu lleoedd deniadol wedi'u dylunio'n dda er budd cymunedau ac i'r dyfodol.

25. Nid yw ADN1 yn talu sylw dyladwy i'r Canllaw TAN8 fel a ganlyn:-

Tyrbinau canolig yn 65 metr at flaen y llafn

2.13 Dylai'r rhan fwyaf o'r ardaloedd y tu allan i'r Ardal Chwilio Strategol ddal fod heb gynlluniau ynni gwynt mawr. Efallai y bydd awdurdodau cynllunio lleol yn dymuno ystyried effeithiau cynyddol cynlluniau bychain mewn ardaloedd y tu allan i'r Ardaloedd Chwilio Strategol a sefydlu meini prawf priodol ar gyfer pellteroedd i'w gwahanu oddi wrth ei gilydd ac i'w gwahanu o berimedr cynlluniau ynni gwynt presennol neu'r Ardaloedd Chwilio Strategol. Yn yr ardaloedd hyn, mae'n rhaid cael cydbwysedd rhwng dymunoldeb ynni adnewyddol a gwarchod y tirwedd. Er na ddylai'r cydbwysedd olygu cyfyngiadau dwys ar ddatblygu gallu ynni gwynt, mae yna achos dros osgoi sefyllfa o fod tyrbinau gwynt yn cael eu lledaenu ar draws sir gyfan.

Mae Polisi ADN1 yn Bolisi sy'n hyrwyddo lledaenu llawer o dyrbinau gwynt ar draws y cyfan o Sir Fôn.

26. Nid yw Polisi ADN1 yn cyflawni adran 12.8.6 o Bolisi Cynllunio Cymru sef "nod Llywodraeth Cymru i sicrhau cymysgedd briodol o ddarpariaeth ynni sy'n dod â'r budd gorau i'n heconomi a'n cymunedau, tra'n lleihau'r amharu amgylcheddol a chymdeithasol a allai godi".

27. Nid yw Polisi ADN1 yn cydfynd ag adran 12.8.8 o Bolisi Cynllunio Cymru gan nad yw'n 'gwneud y gorau o gynhyrchu ynni adnewyddol', o fewn ardal y Cynllun oherwydd nad yw'n cael y cydbwysedd gorau posibl rhwng cynhyrchu ynni o dyrbinau gwynt ac angen y cymunedau lleol i wneud gwell defnydd o'r tir i gael y gorau, mewn ffordd wirioneddol gynaliadwy, o adnoddau naturiol ardal y Cynllun, yn dir a phriddoedd cynhyrchiol, tirwedd, cynefinoedd a bioamrywiaeth a'u hansawdd synhwyrol amgylcheddol sy'n arwain at les a ffyniant pobl leol.

28. Mae Polisi ADN1 yn methu o ran adran 12.8.10 o Bolisi Cynllunio Cymru sy'n gofyn i awdurdodau lleol "sicrhau eu bod yn cydymffurfio a'u dyletswyddau statudol rhyngwladol a chenedlaethol i warchod ardaloedd, rhywogaethau a chynefinoedd a'r amgylchedd hanesyddol".

29. Nid yw Polisi ADN1 yn cydymffurfio ag adran 12.9.3 o Bolisi Cynllunio Cymru gan nad yw wedi sefydlu sail tystiolaeth sy'n:

- a) "talw sylw i effeithiau cronol" datblygiadau tyrbinau gwynt led led yr ynys gyfan,
- b) "talw sylw i'r effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd" o hyrwyddo datblygiadau tyrbinau gwynt led led yr ynys gyfan.

30. Nid yw Polisi ADN1 yn cydymffurfio â Pholisi Cynllunio Cymru sy'n datgan "dylai cynlluniau datblygu ... ddangos yn glir y meini prawf lleol ar gyfer gwerthuso cynlluniau o'r fath", oherwydd fod y rhestr o feini prawf sydd yn y polisi'n anghyflawn ac, mewn rhai achosion, yn gallu cael eu camdehongli.

31. Nid yw Polisi ADN1 yn cyfarfod y meini prawf o reoli a defnyddio tir er budd y cyhoedd ac mewn ffordd sy'n gyson ag egwyddorion allweddol cynaliadwyedd er mwyn arwain at ganlyniadau datblygu cynaliadwy, yn ôl bwriad adran 4.2.2 Polisi Cynllunio Cymru sy'n datgan 'Mae'r system cynllunio'n cynnwys rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy er mwyn sicrhau fod y sawl sy'n penderfynu wrth baratoi cynllun datblygu yn cydbwysu a chyfuno yr un pryd broblemau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.'

32. Ac, i gloi, mae Polisi ADN1 yn methu o ran adran 4.3.1 Polisi Cynllunio Cymru sy'n datgan "Mae'r egwyddorion canlynol yn sail i'n hagwedd at bolisi cynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy ac yn adlewyrchu'r egwyddorion hynny yr ydym ni oll yn disgwyl i'r rhai sydd â rhan yn y system cynllunio llynu atyn nhw:

- rhoi pobl, ac ansawdd eu bywydau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, ynghanol cymryd penderfyniadau;

- *cysylltu a chymryd rhan, gan sicrhau fod pawb yn cael cyfle i gael gwybodaeth, i weld sut y mae penderfyniadau'n cael eu cymryd ac i gymryd rhan mewn cymryd penderfyniadau.*
- *cymryd agwedd hirdymor at ddiogelu diddordebau cenedlaethau'r dyfodol ac, yr un pryd, gyfarfod ag anghenion pobl heddiw;*
- *parchu ffiniau amgylcheddol fel nad yw adnoddau'n cael eu dihysbyddu'n anadferadwy na'r amgylchedd yn cael ei niweidio'n anadferadwy. Golyga hyn, er enghraifft, liniaru newid hinsawdd, gwarchod a gwella bioamrywiaeth, lleihau allyriadau niweidiol a hyrwyddo defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy."*

Am y rhesymau uchod, mae Polisi ADN 1 o'r Cynllun Datblygu Adnau yn bolisi diffygiol ar gyfer Môn ac yn wallus.

Defnyddiwyd saith dalen

2ch. Os yw eich ymateb i 2c uchod yn fwy na 100 gair, a fyddech cystal a darparu crynodeb (dom mwy na 100 gair).

Mae Polisi ADN1 yn bolisi cynllunio diffygiol ar gyfer Môn ac yn wallus.

2d Rhowch fanylion y newidiadau yr hoffech eu gweld i'r Cynllun Adnau

Mae'n rhaid cael polisi sy'n cyfyngu ar yr ardaloedd lle gellir adeiladu tyrbinau gwynt newydd ym Môn. Mae'n rhaid adfer statws Ardal Tirwedd Arbennig i'r rhan fwyaf o dirweddau canoldir yr ynys.

Mae'n rhaid cyfyngu ar uchder datblygiadau tyrbinau gwynt newydd a ganiateir i'r hyn a restrir yn Ymgynghoriad Canllawiau Cynllunio Arbennig 2012.

Mae'n rhaid cael Parthau Byffer rhwng tyrbinau ac eiddo trigiannol yn unol â Chanllawiau Cynllunio Arbennig 2013.

2dd A yw'r Cynllun Adnau'n gadarn?

Ydyw

r

Nac Ydyw

NAC YDYW

2e Os ydych chi o'r farn fod y Cynllun Adnau'n wallus, pa brawf o gadernid ydych chi'n meddwl y mae'n ei fethu?

Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Campaign for the Protection of Rural Wales
Elusen Gofrestredig/Registered Charity 239889



Cangen Ynys Mon/Anglesey Branch

c/o 25 Cae Cnyciog,
Llanfairpwll,
Môn,
LL61 5JS.

28 Ionawr 2016

Dr Gwynne Jones, Prif Weithredwr/
Y Cynghorydd Ieuan Williams, Arweinydd, Cyngor Sir Môn

Annwyl Dr Gwynne Jones a'r Cynghorydd Ieuan Williams,

Asesiad anghywir o Ardal Tirlun Arbennig Môn yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Adnau

Rydym yn bryderus iawn fod y broses o asesu Ardal Tirwedd Arbennig Môn yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn wallus.

Rydym wedi olrhain y broses drwy'n dogfennau a gyhoeddwyd ac rydym o'r farn na thalwyd digon o sylw i'r broses ddeddfwriaethol nac i'r meini prawf dewis ar gyfer yr Ardal Tirlun Arbennig ym Môn.

Rydym yn bryderus fod yna ddau wall sylfaenol yn y broses, fel a ganlyn:-

1. Mae'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn datgan y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol, ar gychwyn y broses cynllunio, hysbysu'r gymuned o randdeiliaid o bob mater, a newid, o sylwedd a fydd yn cael eu hystyried.

Allwn ni ddim canfod unrhyw dystiolaeth fod y cyhoedd ym Môn, ar gychwyn y broses Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, wedi cael gwybodaeth glir y byddai'r polisi Ardal Tirwedd Arbennig (Polisi 31 o Gynllun Lleol Ynys Môn 1996) presennol yn cael ei ail asesu'n llwyr.

Ar hyn o bryd, Polisi 31 yw'r sail cyfreithiol i benderfyniadau cynllunio ym Môn 'yn cael eu harwain gan y cynllun'. Mae'r polisi'n un syml ac mae'n cael ei ddangos yn glir iawn yng Nghynllun 1996 fel a ganlyn:-

"4.26 Mae'r Cyngor yn ystyried fod gan bob rhan o Ynys Môn rinweddau arbennig o ran tirwedd. Dylai cadwraeth harddwch naturiol fod yn brif amcan mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ac ar yr Arfordir Treftadaeth.

POLISI 31. TIRWEDD

Ac eithrio'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a'r tir sy'n disgyn o fewn ffiniau aneddiadau yn ôl diffiniad y Cynllun, mae'r ynys wedi'i dynodi fel Ardal Tirwedd Arbennig. Disgwylir i geisiadau ar gyfer datblygu yn yr Ardal Tirwedd Arbennig dalu sylw penodol i gymeriad arbennig y tir o'u hamgylch. Wrth ystyried effaith unrhyw gais ar y tirwedd, dylai'r Cyngor fod yn fodlon y gellir cynnwys y datblygiad yn y tir o'i amgylch heb beri niwed annerbyniol i gymeriad cyffredinol y tirwedd, cyn rhoi caniatâd cynllunio.

Mae'r newid a gynigir yn y Cynllun Adnau a gyhoeddwyd yn 2015 yn cwtogi'r Ardal Tirwedd Arbennig i bump o ardaloedd bychan o dir. Mae newid mor radical, a hynny heb ymgynghori'n briodol â'r cyhoedd o'r cychwyn, yn golygu fod Cynllun Adnau 2015 yn wallus.

2. Mae'r Uned Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi ymgynghori'n broffesiynol. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn ystyried yr holl dystiolaeth gan ei fod wedi'i seilio'n unig ar wybodaeth anghyflawn LANDMAP.

Mae Diweddariad Strategaeth Tirwedd Môn 2011 yn datgan:-

"Penododd Cyngor Sir Ynys Môn TAPC Consultants fis Ebrill 2010 i gynnal adolygiad o'r Ardaloedd Cymeriad Tirwedd a nodwyd yn yr astudiaeth asesiad tirwedd LANDMAP wreiddiol ar gyfer Môn a gyhoeddwyd ym 1999".

Mae Adroddiad Ardal Tirwedd Arbennig 2012 hefyd yn defnyddio LANDMAP fel y prif offer ar gyfer gwerthuso statws Ardal Tirwedd Arbennig ar gyfer Môn.

Fodd bynnag, fel y mae Tabl 2.2 'Landmap a'r sgoriau gwerthuso' yn ei wneud yn glir, mae'r teclyn hwn yn gyfan gwbl annigonol ar gyfer gwerthuso Tirweddau Daearegol. Gweler paragraff 2.12 ar dudalen 8 o'r adroddiad.

"Tirweddau Daearegol (5 cwestiwn a gwerthusiad cyffredinol)
GL29a Gwerth Ymchwil Dim gwybodaeth ar gael gan LANDMAP
GL29b Gwerth Addysgol Dim gwybodaeth ar gael gan LANDMAP
GL30 Gwerth Hanesyddol Dim gwybodaeth ar gael gan LANDMAP
GL31 Prinder / Unigryw Dim gwybodaeth ar gael gan LANDMAP
GL32 Enghraifft Glasurol Dim gwybodaeth ar gael gan LANDMAP
GL33 Gwerthusiad cyffredinol
Gwerthusiad Cyffredinol o Dirweddau Daearegol "

Mae'r adroddiad yn egluro ym mharagraff 2.26:-

"Datblygodd yr astudiaeth a chytuno ar dri math o faen prawf ar gyfer dewis darpar ardaloedd ar gyfer eu dynodi'n Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Ystyrir y meini prawf hyn ar y cyd ar gyfer pob Ardal Tirwedd Arbennig: bydd yn rhaid i bob ardal gyfarfod pob un o'r ddau Faen Prawf Ymarferol ac ag o leiaf un o'r tri Maen Prawf tirwedd'. Mae maen prawf gwahanol ar gyfer yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig hynny a fydd yn chwarae rhan bwysig arall mewn gwarchod / gwella lleoliadau tirweddau sydd â gwarchodaeth genedlaethol (Parc Cenedlaethol Eryri a Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn a Môn). Cafodd y meini prawf eu dylunio'n ofalus er mwyn sicrhau fod ardaloedd yn cael eu dynodi'n Ardaloedd Tirwedd Arbennig ar sail angen clir: mae'n rhaid i'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig fod yn dirweddau 'arbennig' a gwahanol ohonyn nhw eu hunain yn ogystal â chyfarfod y meini prawf strategol, cyffredinol o ddarparu gwarchodaeth ychwanegol (mwy nag a fyddai ar gael o dan y polisi arferol) i dirweddau sensitif o fewn ardaloedd yr awdurdod".

Fodd bynnag, nid yw LANDMAP yn darparu'r offer i asesu'r ddaeareg sy'n rhan mor bwysig o dreftadaeth Môn.

Â'r adroddiad ymlaen ym mharagraff 20 i egluro ystod yr ymgynghoriad:-

"Ymgynghori a Dilysu

2.30 Cyflwynwyd a thrafodwyd canlyniadau'r gwaith arolygon maes gyda'r Grŵp Llywio mewn cyfarfod yn swyddfeydd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ym Mangor. Ar ôl y cyfarfod hwn, rhannwyd crynodeb ysgrifenedig o gyfiawnhad cynnwys yr ardaloedd sy'n addas ar gyfer eu dynodi'n Ardaloedd Tirwedd Arbennig a hefyd fapiau o'r darpar ardaloedd hynny.

Trafododd y Grŵp Llywio y canfyddiadau hyn ymhellach gyda swyddogion perthnasol y ddau Gyngor yn ogystal â chyda'r timau Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Cynhaliodd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd gyfarfod hefyd gyda phensaer tirweddau'r Cyngor Cefn Gwlad i dderbyn barn broffesiynol bellach ar y darpar ddyndodiadau.

"Gorffen y darpar Ardaloedd Tirwedd Arbennig a pharatoi Datganiadau o Werth ac Arwyddocâd

2.33 Unwaith y cytunwyd ar y dewis terfynol o Ardaloedd Tirwedd Arbennig, gosodwyd y ffiniau terfynol ar GIS a pharatowyd Datganiadau drafft o Werth ac Arwyddocâd. Rhannwyd y datganiadau drafft i'r Grŵp Llywio i gael sylwadau pellach gan y Grŵp a gan swyddogion eraill y Cyngor.

Cynhaliwyd cyfarfod terfynol ym mhencadlys yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd i drafod drafftiau terfynol y datganiadau, sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

Mae, felly, yn hunanamlwg fod y meini prawf a ddangosir yn Nhabl 2.3 yr adroddiad yn anghyflawn a bod yn rhaid eu newid yng ngoleuni'r dynodiad daearegol o 'Geobarc Byd-eang' y mae UNESCO wedi'i roi i Fôn. Mae hyn yn gyfystyr o ran statws â Safle Treftadaeth y Byd ac, wrth gwrs, mae safloedd o'r fath yn derbyn llawer iawn o warchodaeth yn y broses o baratoi cynlluniau.


Gan fod **Adroddiad Terfynol Sensitifrwydd Tirweddau ac Asesiad Gallu**, a gafodd ei baratoi gan Gillespies hefyd wedi'i seilio ar adroddiadau cynharach, a chan nad oedd Gillespies wedi ystyried dynodiad UNESCO, mae'r asesiad hwnnw hefyd yn anghyflawn ac felly'n wallus.

Mae Môn wedi elwa o'r amddiffyniad Ardal Tirwedd Arbennig y mae wedi'i fwynhau ers 1996. Mae tirweddau'r ynys erbyn hyn yn cael eu cydnabod yn genedlaethol ac yn rhyngwladol fel rhai unigryw. Ni fyddai'n iawn diddymu nac israddio statws Ardal Tirwedd Arbennig Môn.

Mae gofyn ail-ddatgan pwysigrwydd sylfaenol Polisi 31 yn y Cynllun Datblygu Unedol ar y Cyd sy'n ymddangos. Dylai'r cynllun newydd roi'r gydnabyddiaeth briodol i nodweddion arbennig cymeriad y tirwedd yn ardaloedd Môn, i statws Geobarc Byd-eang UNESCO ac i'r berthynas rhwng y ddaeareg, y tirweddau a'r cynefinoedd.

Mater i'r Swyddogion Cynllunio yw a oes angen 'newid sylfaenol' neu 'newid â ffocws i ail gynnwys Polisi 31 yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Fodd bynnag, yn ein barn ni, mae'n rhaid ail gynnwys Polisi 31 cyn y gellir ystyried y cynllun yn un cadarn. Felly, nid ydym yn ystyried ei bod yn briodol cyflwyno'r cynllun i Lywodraeth Cymru nes bod y mater hwn wedi'i ddatrys.

Byddwn yn ddiolchgar o dderbyn eich ymateb ar frys.



Dr Morag McGrath

cc. Cynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

APPENDIX 4 Written Statement Paul Madden Hearing Session 6



111.1

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd & Môn Joint Planning Policy Unit Anglesey & Gwynedd

Morag McGrath
Cadeirydd, Cangen Môn CPRW
do 25 Cae Cnyciog
Llanfairpwil
Ynys Môn
LL61 5JS

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE, OF ANGLESEY COUNTY
COUNCIL

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd & Môn
Joint Planning Policy Unit Anglesey & Gwynedd
Llawr I of Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor I 1st Floor
Bangor City Council Offices
Bangor
Gwynedd. LL57 1DT

(01286) 679890

www.ynysmon.gov.uk
www.gwynedd.11yw.cymru

Gofynnwch am / Ask for: Nia Davies
IC (01286) 679890
planningpolicy@gwynedd.gov.uk

Ein Cyf / Our Ref:
Eich Cyf / Your Ref:

Dyddiad / Date: 16/02/2016

Annwyl Morag McGrath

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Adnau – Ardaloedd Tirwedd Arbennig

Rwy'n cyfeirio at eich llythyr dyddiedig 28 Ionawr 2016 oedd wedi'i anfon at Dr Gwynne Jones ac at y Cynghorydd Ieuan Williams ynghylch yr uchod. Gofynnwyd i mi ymateb ar eu rhan.

Rwy'n meddwl ei bod yn berthnasol ar y dechrau gyfeirio at statws yr Ardal Tirwedd Arbennig ym Môn. Fel y dywedwch yn eich llythyr, mae rhannau o'r Ynys eisoes yn elwa o ddynodiad Ardal Tirwedd Arbennig yng Nghynllun Lleol Ynys Môn a gafod ei fabwysiadu ym 1996.

Fodd bynnag, ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Lleol, dechreuodd y Cyngor weithio ar ei Gynllun Datblygu Unedol. Er na lwyddodd hwn i gyrraedd y cam mabwysiadu, fe aeth drwy'r cyfnod

Ymchwiliad Cyhoeddus ac mae'n cario pwysau felystyriaeth gynllunio faterol ar gyfer dibenion datblygu a rheoli. Nid oedd y Cynllun Datblygu Lleol (2005) a gafodd ei atal yn cynnwys polisi Ardal Tirwedd Arbennig. Yn hytrach, mae'n dangos gofyniad i ystyried cymeriad y tirwedd o fewn 15 maes bras o gymeriad tirwedd. Ni chafod y dull hwn ei herio yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus ynghylch y Cynllun Datblygu Unedig Adnau ac ystyrir ei fod yn cyd-fynd â pholisi cynllunio cenedlaethol. Felly, roedd Cyngor Sir Ynys Môn eisoes wedi symud oddi wrth y math hwn o ddynddiad lleol cyn bod gwaith wedi cychwyn ar y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Rwyf hefyd yn tynnu eich sylw at Bolisi Cynllunio Cymru y mae'n rhaid i'r Cynllun sy'n datblygu dalu sylw iddo. Mae polisi 5.3.11 yn datgan y dylai dynodiadau lleol megis ardaloedd tirwedd arbennig gael eu seilio'n gadarn ar asesiad gwyddonol ffurfiol o werth cadwraeth natur, gwerth tirwedd neu werth daearegol y safle.

Gan gofio'r uchod, rwy'n ymateb i'ch ymholiadau yn y drefn y maen nhw'n ymddangos yn eich llythyr.

Ar gychwyn y broses o baratoi'r Cynllun, cysylltodd y Cyngor â chyrrff ymgynghori penodol a chyffredinol yn ogystal ag â'r cyhoedd ynghylch rhestr o faterion posibl, gweledigaeth bosibl ar gyfer ardal y Cynllun a rhestr o'r darpar amcanion a ddylai gael eu cynnwys yn y Cynllun wrth ei baratoi. Yn unol â'r Rheoliadau, gofynnwyd hefyd am farn y cyrrff ymgynghori a'r cyhoedd ynghylch dewisiadau tŵf a gofodol amgen. Roedd y gwaith cysylltu'n cynnwys cyhoeddi dogfen a oedd ar gael i'w gweld ac i gyflwyno sylwadau yn ei chylch o fis Tachwedd 2011 tan ddiwedd Ionawr 2012. Cafodd canlyniadau'r cysylltu eu defnyddio wrth benderfynu ynghylch cynnwys y ddogfen Strategaeth Ddewisol (a elwir hefyd yn ddogfen cynigion Cyn Adnau). Roedd Aelodau'r Cyngor yn cael gwybod drwy nifer o seminarau am y sail tystiolaeth oedd yn ymddangos. Cafodd gwybodaeth ynghylch yr astudiaeth ac ynghylch yr hyn oedd yn ymddangos o ran polisi ardal tirwedd arbennig ei gyflwyno i Aelodau fis Hydref 2012.

Roedd cyhoeddi'r ddogfen Strategaeth Ddewisol yn gyfle i'r Cyngor gasglu barn y cyrrff ymgynghori a'r cyhoedd ynghylch y Cynllun oedd yn ymddangos cyn paratoi'r Cynllun Llawn (Cynllun Adnau). Ymgynghorwyd yn gyhoeddus ynghylch y ddogfen Strategaeth Ddewisol yn ystod misoedd Mai a Mehefin 2013. Cyhoeddodd y Cyngorau hefyd ddogfennau cefnogi er mwyn i ddarllenwyr ddod yn gyfarwydd â'r sail tystiolaeth a fyddai'n cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r Cynllun Adnau. Roedd y gyfres o ddogfennau cefnogi'n cynnwys gwybodaeth allweddol o'r astudiaeth oedd yn adolygu'r

ardaloedd o dirwedd arbennig a fabwysiadwyd yn ardal y Cynllun. Cafodd yr astudiaeth ei chomisiynu er mwyn penderfynu a oes yna dystiolaeth gadarn (sydd ei angen er mwyn cydymffurfio â pholisi cynllunio cenedlaethol) i ddatblygu polisi Ardal Tirwedd Arbennig yn y Cynllun sy'n cael ei baratoi. Daeth yr adroddiad i'r casgliad ei bod yn briodol dynodi pum ardal ar yr Ynys fel Ardaloedd Tirwedd Arbennig.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth, mae'r Cynllun Adnau'n cynnwys Polisi PSI 6, sy'n bolisi cyffredinol, Polisi AMG 1, sy'n ymdrin â datblygu o fewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig dynodedig, a Pholisi AMG2 sy'n darparu'r fframwaith i ystyried effeithiau datblygu ar gymeriad tirwedd fel y mae'n cael ei ddiffinio gan yr ardaloedd cymeriad tirwedd.

Rwy'n deall eich bod o'r farn fod y gwerthusiad a wnaed o'r Ynys i allu penderfynu ar rinweddau dynodi ardaloedd tirwedd arbennig yn wallus.

Adnodd tirwedd Cymru gyfan yn seiliedig ar GIS yw LANDMAP sy'n cofnodi ac yn gwerthuso mewn set o ddata wedi'i gysoni'n genedlaethol nodweddion, rhinweddau a dylanwadau ar dirweddau. Gorffennwyd y gwaith a sicrhawyd ansawdd ar y cyfan o'r pum haen yn y ddau Awdurdod yn 2008 gan, felly, ddarparu adnodd wedi'i gysoni'n genedlaethol ar gyfer cynllunio a phenderfynu ynghylch tirweddau.

Mae yna bump agwedd o LANDMAP, fel a ganlyn:

- Tirwedd Ddaearegol
- Cynefinoedd Tirwedd
- Gweledol a Synhwyrol
- Tirwedd Hanesyddol
- Tirwedd Ddiwylliannol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi paratoi nodiadau canllaw ar gyfer pob agwedd sy'n cynnwys cwestiynau a allai fod o gymorth ac yn ddefnyddiol i arbenigwyr agwedd wrth asesu a didoli gwybodaeth sy'n berthnasol i bob ardal agwedd. Roedd disgrifiadau / nodiau gerllaw'r rhan fwyaf o'r cwestiynau yn y nodiadau canllaw. Gellir gweld y disgrifiadau / nodiadau (os ar gael) yn nhabl 2.2 o'r adroddiad ynghylch yr astudiaeth i'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Ar adeg cyhoeddi'r nodiadau canllaw, doedd dim disgrifiadau / nodiadau ar gyfer cwestiynau GL29 - GL33 yn y nodiadau canllaw Daearegol.

Cyflogodd Cyfoeth Naturiol Cymru arbenigwyr i asesu a didoli'r wybodaeth ynghylch **pob un o'r pum maes agwedd** ledled Cymru gyfan. Gellir gweld yr wybodaeth mewn cyfres o Ffeiliau Casglu (sydd ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru). Felly, er gwaethaf diffyg disgrifiad / nodyn i ganlyn y cwestiynau sydd yn y nodiadau canllaw perthnasol, mae'r agwedd ddaearegol wedi'i hasesu'n llawn gan arbenigwyr agwedd. Mae'r Ffeiliau Casglu ar gyfer Môn a Gwynedd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch Gwerth Ymchwil ac Addysgol, Gwerth Hanesyddol, Prinder / Unigryw, Enghraifft Glasurol a Gwerthusiad Cyffredinol. Defnyddiodd yr ymgynghorwyr a gynhaliodd yr astudiaeth Ardaloedd Tirwedd Arbenig yr wybodaeth a gofnodwyd yn y Ffeiliau Casglu cyn dod i benderfyniad. Gellir gweld crynodeb yn y Matrigau ar gyfer pob Ardal Tirwedd Arbennig yn eu Datganiadau o Arwyddocâd (1 = Gwerth Ymchwil ac Addysgol, 2 = Gwerth Hanesyddol, 3 = Prinder / Unigryw, 4 = Enghraifft Glasurol a Gwerthusiad Cyffredinol). Felly, nid yw'n gywir rhagdybio nad yw Agwedd Ddaearegol Tirwedd Môn wedi'i hasesu ac wedi derbyn sylw llawn yn yr adroddiad Ardal Tirwedd Arbennig..

Rwy'n gobeithio fod hyn yn taflu goleuni ar y materion a godwyd yn eich llythyr.

Ar 29 Ionawr 2016, penderfynodd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd y dylai'r Cynllun symud ymlaen i gamau nesaf y broses baratoi, sef (i) ymgynghori ynghylch y newidiadau â ffocws yn y Cynllun Adnau a (ii) cyflwyno'r Cynllun Adnau, adendwm yn cynnwys y newidiadau â ffocws, dogfennau sy'n cael eu nodi yn y Rheoliadau a phob dogfen gefnogi berthnasol yn ogystal â chopiau o bob sylw a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghori cyhoeddus ynghylch y Cynllun Adnau.

Hyn fydd y sbardun i gychwyn y cyfnod Archwilio. Bydd Arolygwyr yn cael eu penodi'n fuan ar ôl cyflwyno'r dogfennau. Bydd y Swyddog Rhaglen Archwilio'n cysylltu â phawb yn y man gyda manylion yr Archwiliad, gan gynnwys unrhyw Sesiynau Gwrando. Felly, gall unrhyw un sydd wedi cyflwyno gwrthwynebiad yn ystod y cyfnod Adnau ddibynnu un ai ar y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd yr adeg hynny neu gymryd rhan yn y Sesiwn Wrando berthnasol (cyn belled â bod gwrthwynebwyr wedi dangos eu bod eisiau cyflwyno tystiolaeth lafar).

Yn gywir,

.4⁴

Nia H Davies
Rheolwr Cynlluniau (Polisi)

cc y Cynghorydd Ieuan Williams
cc Dr Gwynne Jones

Rydym ni'n cefnogi'r newidiadau â ffocws hyn oherwydd eu bod yn gwella'r polisi a'u bod yn fwy cyson gyda'r Cynllun Lleol presennol.

Fodd bynnag, dylai'r Arolygaeth Cynllunio nodi ein bod o'r farn nad oedd y broses briodol ar gyfer ail-ddiffinio'r Ardal Tirlun Arbennig wedi'i dilyn o ran y ddeddfwriaeth berthnasol a'n bod wedi gohebu gydag Uned Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ac â Chyngor Sir Fôn ynghylch hyn.

Nid yw'r polisi a ddiffinnir yn y Cynllun Adnau yn cymryd unrhyw sylw o'r Ymgynghoriad Cymunedol nac o'r canlyniadau. ,,

Defnyddiwch dudalennau ychwanegol os bydd angen
Nodwch faint o dudalennau ychwanegol rydych wedi'u defnyddio .
Please use additional sheets if necessary

Please state how many additional sheets have been used ..

4. Os yw eich sylwadau ynghylch 3 yn fwy na 100 o eiriau, darparwch grynodeb os gwelwch yn dda (dim mwy na 100 o eiriau).

4. If your response to 3 above exceeds 100 words, please provide a summary (no more than 100 words).

Newid â Ffocws Rhif 35

--

5. A ydych am i'ch sylwadau gael eu hystyried fel 'sylwadau ysgrifenedig' neu a hoffech siarad mewn sesiwn gwrandawriad yn yr Archwiliad Cyhoeddus? (Ticiwch un o'r isod)

Ar y cam hwn, gallwch wneud sylwadau'n ysgrifenedig yn unig (gelwir y rhain yn 'sylwadau ysgrifenedig'). Fodd bynnag, gall pawb sydd am newid y Cynliun ymddangos gerbron yr Arolygydd a siarad mewn 'sesiwn gwrandawriad' yn ystod yr Archwiliad Cyhoeddus. Ond dylech gofio y bydd yr Arolygydd yn rhoi'r un pwysau ar eich sylwadau ysgrifenedig ar y ffurflen hon a'r rheiny a wneir ar Iafar mewn sesiwn gwrandawriad. Sylwer, bydd yr Arolygydd yn dewis y weithdrefn fwyaf priodol er mwyn darparu ar gyfer y rhai sydd eisiau rhoi tystiolaeth !afar.

5. Do you want your comments to be considered by 'written representations' or do you want to speak at a hearing session of the Public Examination? (Please tick one of the following)

At this stage, you can only make comments in writing (these are called 'written representations'). However, everyone that wants to change the Plan can appear before and speak to the Inspector at a 'hearing session' during the Public Examination. But you should bear in mind that your written comments on this form will be given the same weight by the Inspector as those made verbally at a hearing session. Please note that the Inspector will determine the most appropriate procedure for accommodating those who want to provide oral evidence.

Nid wyf am siarad mewn sesiwn gwrandawriad ac rwyf yn fodlon I'm sylwadau ysgrifenedig gael eu hystyried gan yr Arolygydd. <i>I do not want to speak at a hearing session and am happy for my written comments to be considered by the Inspector.</i>	
--	--

Hoffwn siarad mewn sesiwn gwrandawriad. <i>I want to speak at a hearing session.</i>	✓
---	---

6. Os hoffech siarad, cadarnhewch pam rydych yn ystyried ei bod hi'n angenrheidiol i chi siarad yn y Gwrandawriad.

6. If you wish to speak, please confirm which part of your representation you wish to speak to the Inspector about and why you consider it to be necessary to speak at the Hearing.

Y diffyg mewn dilyn y proses briodol a'r gyfraith ar gyfer ailddiffinio Ardal Tirwedd Arbennig Môn ac yn enwedig ynghylch effeithiau hynny ar Bolisi ADN1

7. Os ydych am siarad, byddai'n ddefnyddiol pe gallech nodi ym mha faith hoffech chi gael eich clywed? (Ticiwch un o'r isod)

6. If you wish to speak, it would be helpful if you could indicate in which language you would like to be heard. (Please tick one of the following boxes)

Rydym ni'n cefnogi'r newidiadau â ffocws, fodd bynnag fe ddylen nhw adlewyrchu'r ffaith fod yr Ardal Tirwedd Arbennig ym Môn wedi cael ei newid heb ddilyn y drefn briodol.

Felly, mae'n gwella polisi AMG 1. Fodd bynnag ni fydd y polisi hwn yn dod i rym llawn nes ei fod wedi'i seilio ar y ffaith o fod wedi dilyn y ddeddfwriaeth a'r polisi perthnasol.

Defnyddiwch dudalennau ychwanegol Os bydd angers
Nodwch faint o dudalennau ychwanegol rydych wedi'u defnyddio

Please use additional sheet if necessary

Please state how many additional sheets have been used.

4. Os yw elch sylw yn 3 yn fwy na 100 o eiriau, darparwch grynodeb Os gwelwch yn dda (dim mwy na 100 o eirlau.

4. If your response to 3 above exceeds 100 words, please provide a summary (no more than 100 words).

Gwrandawriad 6)

5. A ydych am i'ch syiwadau gael eu hystyflia Tel syiwadau ysgrifenedig neu a hoffech siarad mewn sesiwn gwrandawriad yn yr Archwiliad Cyhoeddus? (Ticiwch un o'r isod)

Ar y cam hwn, gallwch wneud syiwadau'n ysgrifenedig yn unig (gelwir y rhain yn 'syiwadau ysgrifenedig'). Fodd bynnag, gall pawb sydd am newid y Cynliun ymddangos gerbron yr Arolygydd a siarad mewn `sesiwn gwrandawriad' yn ystod yr Archwiliad Cyhoeddus. Ond dylech gofio y bydd yr Arolygydd yn rhoi'r un pwysau ar eich syiwadau ysgrifenedig ar y ffurflen hon a'r rheiny a wneir ar [afar mewn sesiwn gwrandawriad. Syiwer, bydd yr Arolygydd yn dewis y weithdrefn fwyaf priodol er mwyn darparu ar gyfer y rhai sydd eisiau rhoi tystiolaeth lafar.

S. Do you want your comments to be considered by 'written representations' or do you want to speak at a hearing session of the Public Examination? (Please tick one of the following)

At this stage, you can only make comments in writing (these are called 'written representations'). However, everyone that wants to change the Plan can appear before and speak to the Inspector at a 'hearing session' during the Public Examination. But you should bear in mind that your written comments on this form will be given the same weight by the Inspector as those made verbally at a hearing session. Please note that the Inspector will determine the most appropriate procedure for accommodating those who want to provide oral evidence.

Nid wyf am siarad mewn sesiwn gwrandawriad ac rwyf yn fodlon I'm syiwadau ysgrifenedig gael eu hystyried gan yr Arolygydd.
I do not want to speak at a hearing session and am happy for my written comments to be considered by the Inspector.

Hoffwn siarad mewn sesiwn gwrandawriad.
I want to speak at a hearing session.



6. Os hoffech siarad, cadarnhewch pam rydych yn ystyried ei bod hi'n angenrheidiol i chi siarad yn y Gwrandawriad.

6. if you wish to speak, please confirm which part of your representation you wish to speak to the Inspector about and why you consider it to be necessary to speak at the Hearing.

Y diffyg proses briodol ar gyfer ailddylunio Ardal Tirwedd Arbennig Môn

7. Os ydych am siarad, byddai'n ddefnyddiol pe gallech nodi ym mha faith hoffech chi gael eich clywed? (Ticiwch un o'r isod)

6. If you wish to speak, it would be helpful if you could Indicate in which language you would like to be heard. (Please tick one of the following boxes)

Hoffwn I gael fy nghlywed yn Gymraeg

I wish to be heard in Welsh

Hoffwn i gad fy nghlywed yn Saesneg

I wish to be heard in English

✓

**DIOLCH AM ETCH SYLWADAU AM Y NEWIDIADAU A FFOCWS/ THANK YOU FOR YOUR COMMENTS ON
THE FOCUSSED CHANGES**
